# Y DINESYDD

Hydref 2023 | Papur Pobl Caerdydd a'r Fro | Rhif 481 | £1.20




Llun: Hawlfraint BBC

**Holi Lowri Mair Jones enillydd Tlws y Cerddor**

tud. 8




**Ras Cefn y Ddraig**

tud. 7



Llun: Hawlfraint BBC

**Teyrngedau i'r Parchedig Ddr R. Alun Evans**

tud. 6 a 7

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Manon Phillips**

***Golygydd Tachwedd***
***Alun Treharne***

Cyfraniadau erbyn **27 Hydref** at:
aluntreharne@btinternet.com
91 Windermere Avenue, Parc y Rhath,
Caerdydd, Cf23 5PS
029 20754436

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Gwilym Dafydd (dros dro)
eirianagwilym@gmail.com
4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 7EJ
029 20657108

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd




## GŴYL CERDD DANT CAERDYDD 2023

**Dydd Sadwrn 11 Tachwedd 2023**
Coleg Caerdydd a'r Fro.
Ffordd Dumballs CF10 5FE

**On'd ydi amser yn hedfan?**
Lai na blwyddyn ers cyhoeddi fod yr Ŵyl Cerdd Dant yn dod i Gaerdydd yn 2023, mae hi bron yma. Ac mae'n argoeli i fod yn Ŵyl a hanner.

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cefnogi'r Ŵyl ar bob cam o'r daith. Mae'r holl ddigwyddiadau codi arian wedi bod yn gyfle gwych ... do, i godi arian, ond hefyd i gymdeithasu, treulio amser gyda ffrindiau, a dod i adnabod ffrindiau newydd. Mae 'na un digwyddiad ar ôl sef Sioe Ffasiwn ar 27ain Hydref yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina. Roedd 'na ambell i docyn ar ôl pan oedd yr erthygl hon yn cael ei sgwennu.

**Nwyddau**
Rydym yn gwerthu nifer gyfyngedig o nwyddau gan gynnwys yr enwog *'Jin Cerdd Dant'*, sef jin blas leim a teim. Mae gennym hefyd ganhwyllau Cerdd Dant wedi'u dylunio gan gwmni Milltir Sgwâr, a matiau diod yr Ŵyl i'w rhoi o dan eich gwydr jin. Cysylltwch ag aelod o'r pwyllgor os hoffech chi brynu nwyddau, neu os hoffech werthu ar ein rhan.

**Gwirfoddoli**
Hoffem ofyn yn garedig am eich cymorth ar y dydd i stiwardio a chlercio. O ran stiwardio, mae wyth slot o ddwy awr o hyd rhwng 8.00 y bore a 12.00 y nos ac rydym yn chwilio am wirfoddolwyr sy'n fodlon cynorthwyo i sicrhau fod y gynulleidfa a'r cystadleuwyr yn mwynhau'r profiad gorau posib. Rydym hefyd yn chwilio am bobl i helpu i osod y lle yn barod ar gyfer yr Ŵyl ar y nos Wener ac yna helpu i glirio ar y dydd Sul.

Os gallwch chi sbario dwy awr neu fwy, gofynnwn yn garedig i chi lenwi'r holiadur ar ein tudalen facebook er mwyn cofrestru eich diddordeb, gan nodi'r amseroedd y gallwch helpu. Neu cysylltwch â'r ysgrifennydd glenys.llewelyn@sky.com.

Yn yr un modd, os hoffech glercio rhagbrofion, hoffem ofyn yn garedig am eich cymorth. Mae'r rhagbrofion yn cychwyn am 8.00 y bore a gall rhagwrandawiadau'r corau barhau tan tua 6.00.

Gan fod yr Ŵyl yn cael ei chynnal yng nghanol y ddinas, rydym yn gobeithio y bydd hwn yn gyfle gwych i bawb ddod draw, treulio orig neu ddwy yn yr Ŵyl, a mynd i'r dre i siopa neu am dro i'r Bae. Ac mae mor gyfleus i gyrraedd yno – wir. Mae'r Coleg rhyw ddeng munud o gerddedd o Orsaf Ganolog Caerdydd felly gallwch adael eich car adref! Dewch yn llu – bydd yn ddiwrnod gwych.

---

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



## *Pen-blwydd hapus i Glwb Ifor Bach*

Mae hi'n fis Hydref yn barod sef y mis byddwn yn troi ein clociau nôl awr ac yna'n gorfod wynebu nosweithiau hwy a dyddiau byrrach a'r unig beth i godi ein calonnau fydd edrych ymlaen at ddathlu'r Nadolig yng nghwmni teulu a ffrindiau!

Eleni, mae'r byd wedi wynebu tanau gwyllt, llifogydd, stormydd, corwyntoedd, newyn, tlodi, haint, daeargrynfeydd a rhyfeloedd ac mae'r newid hinsawdd a chynhesu'r byd yn dod yn fwy amlwg o ddydd i ddydd ac o wythnos i wythnos. Yn yr Antartig mae'r iâ yn toddi'n gyflym a'r llifogydd rhew ar fynyddoedd Ewrop ac Asia yn dechrau creu problemau i lawer o bobl. Felly, mewn gwirionedd dylwn ni yng Nghymru fod yn cyfrif ein bendithion gan fod ein problemau ni yn bitw i gymharu â'r hyn sy'n digwydd yng ngweddill y byd.

Mae'r haf drosodd ers amser rwan â phawb yn gytûn ein bod wedi cael chwip o Eisteddfod yn Boduan er gwaethaf ambell gŵyn a pheth beirniadu ar y rheol Gymraeg. Ond chwarae teg i'r Eisteddfod am aros yn ffyddlon a chadarn i'r rheol Gymraeg a ddaeth i fodolaeth am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Caerffili yn 1950.

Trueni nad ydy ein Sianel Deledu Gymraeg yr un mor gadarn gan fod nifer o bobl yn dechrau sylwi ar y defnydd helaethach o Saesneg ar nifer o raglenni. Mae'r tuedd hwn yn amharu ar y rheswm dros sefydlu'r sianel yn y lle cyntaf a hynny wedi ymgyrchu caled. Beth sy angen ydy Cymreigio tipyn ar sianel BBC Wales a chadw ein sianel Gymraeg yn sianel Gymraeg go iawn. Blynyddoedd lawer yn ôl bellach dyma'r hyn a ddywedodd yr ymgyrchydd iaith Emrys ap Iwan sef "*Os lleddir y Gymraeg fe'i lleddir yn nhŷ ei chyfeillion*"! Ymddengys bod peth gwir yn yr hyn a ddywedodd yn yr achos hwn!

Nôl yn 1948 daeth Gweriniaeth Israel i fodolaeth hefo'r Hebraeg yn iaith swyddogol y wlad newydd ac estynwyd croeso i holl Iddewon y byd ddod i fyw yno. Ond odd problem sef sut i gymhathu yr holl fewnfudwyr a hwythau heb fedru Hebraeg. Felly, trawyd ar y Cynllun Wlpan sef cwrs Hebraeg dwys a gynigiwyd iddynt fel on nhw'n cyrraedd Israel a hynny am dri i chwe mis a'r llywodraeth yn ariannu'r cynllun.

Yna, yn Hydref 1973 addaswyd Cynllun Wlpan Israel yng Nghymru am y tro cyntaf pan sefydlwyd Cwrs Wlpan yng Nghanolfan yr Urdd ym Mhontcanna lle disgwylid i aelodau'r cwrs dderbyn gwersi dan arweiniad criw o diwtoriaid Cymraeg ar bum noson o'r wythnos am dri mis. Chris Rees gynt o'r Barri oedd â'r weledigaeth i sefydlu'r fath gwrs yng Nghymru ac ar ddiwedd yr Wlpan cyntaf penderfynwyd ei fod wedi bod yn llwyddiant a phenodwyd Chris Rees gan Brifysgol Caerdydd i ddatblygu ac ehangu y Cynllun Wlpan ledled Cymru. Bellach mae'r Cynllun Wlpan yn hannercant oed â channoedd o bobl wedi dod yn rhugl eu Cymraeg yn ystod y cyfnod hwn. Hir oes i'r Wlpan sy wedi bod mor effeithiol yn cynhyrchu siaradwyr newydd o flwyddyn i flwyddyn.

Mae Clwb Ifor Bach yn Stryd y Fuwch Goch neu Stryd Womanby ynghanol Caerdydd hefyd yn dathlu eleni gan fe'i sefydlwyd ddeugain mlynedd yn ôl i eleni yn 1973. Rhaid rhoi clod i Owen John Thomas, brodor o Gaerdydd, am ei weledigaeth i sefydlu'r clwb yn y lle cyntaf. Bu Owen yn hynod o weithgar am flynyddoedd lawer yn hybu'r iaith ac ar un adeg buodd yn aelod yn y Cynulliad ym Mae Caerdydd yn enw Plaid Cymru.

Cyn sefydlu'r clwb, bu Owen a'i ffrindiau yn cynnal nosweithiau Cerddorol Cymraeg mewn gwahanol leoliadau yn y ddinas tan i Owen glywed bod Cangen o'r Lleng Brydeinig yn Stryd Womanby yn cau a bod y lês ar yr adeilad ar gael. Felly, ar ôl trafod a chynllunio daeth Clwb Ifor Bach i fodolaeth a'r enw yn coffáu un o arwyr Cymru yn y parthau hyn.

Ers ei sefydlu, mae'r clwb wedi esblygu ac mae ieuenctid Cymraeg a di-Gymraeg y ddinas wedi heidio iddo a denwyd y rhan fwyaf o grwpiau pop Cymraeg Cymru i berfformio yn y clwb o dro i dro dros y blynyddoedd. Ers deng mlynedd rwan Rheolwr y Clwb ydy Guto Brychan ac yn ddiweddar datguddiodd gynlluniau i ehangu maint y clwb drwy brynu'r adeilad drws nesa ond bydd angen codi llawer o arian i wireddu'r cynllun. Felly, pob hwyl i'r clwb sy wedi rhoi cymaint o bleser a mwynhad i genedlaethau o bobl ifanc Cymraeg y ddinas ac ymhellach.

Yn rhifyn mis Medi o'r *Dinesydd*, tynnais sylw at nifer o golledion a gafodd Cymru yn ystod yr haf a rwan yn anffodus rhaid ychwanegu enw y llenor, ymgyrchydd iaith a sosialydd, Gareth Miles at y rhestr. Buodd yn hynod o weithgar dros y Gymraeg ar hyd y blynyddoedd a fo yn bennaf fuodd yn gyfrifol am sefydlu Cymdeithas yr Iaith sy'n dal i weithio'n galed dros yr iaith. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu colled fawr.

Mae llu o bethau eraill yr hoffwn i sôn amdanyn nhw yn y golofn hon y tro hwn ond mae'r gofod yn brin ond alla'i ddim tewi heb longyfarch tîm Rygbi Cymru ar eu buddugoliaeth dros Ffiji yng Nghystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd yn Ffrainc. Wel sôn am gêm gyffrous! Cadwodd ni i gyd ar ymyl ein seddau hyd y funud olaf! Hefyd rhaid llongyfarch tîm pêl-droed Cymru ar guro Latfia diolch i goliau Aaron Ramsey y capten a David Brooks - melys moes mwy ar gyfer y ddau dîm!

# Merched y Wawr Caerdydd

**Canmlwyddiant BBC Cymru**
Roedd nifer dda o aelodau'n bresennol yng nghyfarfod cyntaf MyW Cangen Caerdydd i groesawu ein siaradwr gwadd, Rhys Evans. Mae Rhys yn Bennaeth Materion Corfforaethol a Pholisi i BBC Cymru ac mae ei gyfrifoldebau eang yn cynnwys cyfathrebu, rheoleiddio a materion cyhoeddus. Mae hefyd yn arwain ar faterion safonau a chydymffurfio golygyddol.

Ganwyd Rhys yng Nghaerfyrddin a chafodd ei addysg yn Ysgol Penweddig, Aberystwyth a Choleg Hertford, Rhydychen. Mae'n hanesydd o ran ei arbenigedd ac yn 2006, enillodd Wobr Llyfr Cymraeg y Flwyddyn am ei gofiant am Gwynfor Evans. Yn ddiweddar cafodd ei benodi'n Is-gadeirydd Amgueddfa Cymru.

Testun sgwrs Rhys oedd 'Canmlwyddiant BBC Cymru.' Yn 1923, darlledwyd y gwasanaeth radio cyntaf yn Saesneg i dde Cymru a de Lloegr o stiwdio yn 19 Stryd y Castell Caerdydd. Dyma oedd y patrwm cynnar – De Cymru yn cael ei chynnwys gyda De Lloegr a Gogledd Cymru gyda Gogledd Lloegr, a'r gwasanaeth yn Saesneg yn unig.

Bu'n rhaid ymgyrchu am wasanaeth Cymraeg a gwasanaeth ar wahân i Gymru gyfan. Ymunodd yr holl bleidiau gwleidyddol â sefydliadau fel Prifysgol Cymru ac unigolion blaenllaw fel Lloyd George a'i ferch Megan i bwyso am y newid. Roedd pennaeth y BBC yn Llundain – yr Arglwydd Reith - yn anfodlon iawn ond yn y diwedd, yn 1937, sefydlwyd tonfedd radio ar wahân i Gymru. Roedd hon yn ganolbwynt darlledu i Gymru gyfan, gan alluogi pobl Cymru i gyfathrebu â'i gilydd am y tro cyntaf. Cam hollbwysig i ni fel cenedl.

Pan ddaeth y teledu, gwelwyd yr un patrwm eto – cyfuno De Cymru a De Lloegr, a Gogledd Cymru a Gogledd Lloegr. Unwaith eto, bu'n rhaid pwyso am gael gwasanaeth i Gymru gyfan. Mae hanes diweddarach darlledu yng Nghymru yn fwy cyfarwydd – sefydlwyd Radio Cymru yn 1977 ac S4C yn 1982.

Roedd yn sgwrs hynod ddiddorol yn cwmpasu'r cyfnod rhwng y cychwyn amaturaidd, arbrofol yn 1923 a'r gwasanaeth safonol, poblogaidd rydym yn ei garu a'i fwynhau heddiw.

*Joy Davies*



***Mostyn Thomas yn canu 'Dafydd y Garreg Wen' y gân gyntaf i'w darlledu yn Gymraeg ar 13 Chwefror, 1923.***

# Merched y Wawr Bro Radur

**Noson Gerddorol yng nghwmnni Trystan a Siân**
Cawsom wledd gerddorol arbennig i agor tymor newydd cangen Merched y Wawr Bro Radur, ac mae ein diolch i Trystan a Siân Francis am ddod atom i'n diddanu. Llwyddodd y pâr priod dawnus i gyflwyno cyfuniad o wahanol fathau o ganeuon – yn y cywair clasurol, gwerin a phoblogaidd.

Aeth Trystan i astudio Ffrangeg a gwleidyddiaeth ryngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Wedi hynny, aeth i Frwsel am flwyddyn i gael profiad gwaith. Erbyn hyn, mae Trystan a'i wraig Siân wedi ymgartrefu yn Rhiwbeina, a'r ddau yn arwain y clwb Carco.

Un o Aberpennar ydy Siân. Dysgodd siarad Cymraeg yn yr ysgol gynradd yno. Mae hi'n hoff iawn o'r iaith Gymraeg. Wedi iddi astudio opera yng ngholeg Goldsmith yn Llundain a mwynhau cyfnod yn diddanu cynulleidfaoedd ar fordeithiau, ymgartrefodd yng Nghaerdydd.

Yn ystod y cyfnod clo, dyma hi'n darganfod bod canu gyda Trystan yn cael llawer o ddilyniant ar y We. Mae ceisiadau yn dod iddyn nhw o bedwar ban byd. Mae Siân yn ei helfen yn canu caneuon Mary Hopkins, ac esboniodd fod y cyfieithiadau Cymraeg, yn aml, yn well na'r geiriau Saesneg gwreiddiol. Uchafbwynt y noson oedd pan ganodd Trystan a Siân addasiad Cymraeg Ysgol Glanaethwy o'r weddi y mae Andrew Pocelli yn ei chanu. Dyma un o'r caneuon poblogaidd roedden nhw'n eu canu ar y We i blant oedd yn dost iawn.

Yn ystod y noson, un o'r caneuon a ganodd Trystan oedd 'Cân yr Arad Goch'. Un arall oedd rhan o'r gân 'Carmen Toreador'. Dyna braf i'r gynulleidfa oedd cael ymuno i ganu 'Ar hyd y nos', 'Sosban fach' a 'Lawr ar lan y môr'. Cerddoriaeth hyfryd o'r safon uchaf! Mwynhad llwyr! A'n hedmygedd yn fawr o ddawn dau sy'n ddifyr a llawen ac yn awyddus i godi calon eu cynulleidfaoedd.

Wrth gloi'r noson, diolchodd ein Llywydd newydd, Dr Eirian Dafydd, i'r ddau westai, a chyhoeddi mai Bet Davies, Radur, fydd yn siarad yn ein cyfarfod nesaf ar 4 Hydref, am 7.30 yh, yn Eglwys Crist, Radur. Y testun fydd 'Lloffion Gaijin – olrhain cysylltiadau rhwng Cymru a Siapan'. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

*Gwen Emyr*



***Trystan a Siân Francis***

# Colofn Natur

## *Creaduriaid Caerdydd*

## *Cnocell-y-Coed*



**Gethin Jenkins-Jones**

Wrth ystyried y teuluoedd gwahanol o adar sydd gennym ym Mhrydain, mae gan y mwyafrif ohonynt gynrychioldeb weddol fawr yma. Mae gan grwpiau fel y gwylanod, hwyaid, yr adar ysglyfaethus a'r teloriaid (ymysg eraill) lawer o rywogaethau sy'n nythu yn ein plith. Ond mae un grŵp cyfarwydd sy'n enwedig o fach yma - teulu cnocell-y-coed.

Mae'r grŵp hyn yn adnabyddus i'r mwyafrif o bobl yn y gwledydd lle maent yn nythu, diolch i'w sŵn nodweddiadol tebyg i ddril wrth fwrw coed, a hefyd oherwydd y cymeriad poblogaidd, 'Woody Woodpecker'. Dwi'n hoff iawn o gnocell-y-coed, yn bennaf oherwydd maent fel arfer yn arwydd o ecosystemau coedwigol da. Mae llawer ond i'w gweld mewn llefydd efo digonedd o goed, yn enwedig rhai mawr, hen, neu farw, sy'n cynnig y cyfeintiau gorau o drychfilod iddynt i fwyta.



*Llun: Cliff Woodhead*

Wedi diwedd Oes yr Iâ, dim ond tair rhywogaeth wnaeth lwyddo i gyrraedd Prydain cyn iddi droi'n ynys, rhyw wyth mil o flynyddoedd yn ôl -Y Gnocell Werdd, y Gnocell Fraith Fwyaf a'r Gnocell Fraith Leiaf. Ni wnaeth y chwe rhywogaeth arall yn Ewrop ein cyrraedd mewn pryd, ac mae'n gas ganddyn nhw hedfan dros mor. Er bod sawl un ohonynt i'w gweld mor agos ag arfordiroedd Ffrainc a Norwy, nid oes yr un ohonynt erioed wedi'u gweld yma. Yng Nghaerdydd, mae ein tair rhywogaeth yn hollol gyfarwydd yma, er bod un bellach yn brin iawn.

Y Gnocell Werdd yw rhywogaeth fwyaf y teulu ym Mhrydain. Fel mae'r enw yn ei awgrymu, mae'n aderyn gwyrdd yn bennaf efo wyneb du a phen rhuddgoch. Yn rhyfedd, nid ydynt mewn gwirionedd yn treulio gymaint o'u hamser yn y coed fel y rhan fwyaf o'u perthnasau, ac nid ydynt yn 'drymio' ar ganghennau neu foncyffion y coed yn y gwanwyn chwaith, gan fod eu pigau'n rhy wan. Prif fwyd yr aderyn yma yw morgrug felly maent fel arfer i'w gweld ar y llawr, gan amlaf mewn glaswelltiroedd yn agos at goed. Ond maent yn medru dringo coed yn hawdd iawn ac maent yn nythu mewn hen dyllau ynddynt pan ddaw'r gwanwyn. Mae sŵn yr aderyn yn un hollol unigryw ymysg adar - sŵn tebyg i chwerthin araf. Yr hyn sy'n rhyfeddol am ei alwad (sydd i'w chlywed ar hyd y flwyddyn) yw y byddwch yn aml yn ei chlywed wrth iddi lawio, sydd wedi arwain at y ffug enw Saesneg 'rain bird'.



*Llun: Cliff Woodhead*

Y Gnocell Fraith Fwyaf yw cnocell fwyaf cyffredin Prydain, a gan amlaf hon yw'r rhywogaeth y byddwch yn ei gweld yn bwydo ar gnau a hadau yn eich gardd. Yn ddu a gwyn, o faint drudwy, maent i'w gweld yn y rhan fwyaf o goedwigoedd Prydain (ac Ewrop). Mae eu diet yn cynnwys pryfed sy'n tyllu mewn coed, fel larfa chwilenod a phryfed cop, ac i'w dal, mae ganddynt dafod gludiog eithriadol o hir sy'n cyrlio mewn gwaun sy'n ymestyn o gefn y pig yn ôl dros gefn penglog yr aderyn! Yn ogystal â'i gweld, mae o hyd yn bleser clywed sŵn drymio cyntaf y flwyddyn yr adar hyn, sydd gan amlaf yn cychwyn ym mis Chwefror ac yn medru cael ei glywed bron hanner cilomedr i ffwrdd.

Y Gnocell Fraith Leiaf yw ein cnocell leiaf o ran maint, a hefyd ein rhywogaeth prinaf o bell ffordd. O faint aderyn-y-to, maent yn treulio'r mwy o'u hamser yng nghanopi'r coed na'r Gnocell Fraith Fwyaf, ond yn gyffredinol maent yn bwyta'r un pethe. Mae'r aderyn hefyd yn hynod o swil, ac felly yn anodd ei weld, yn enwedig wedi mis Mai wrth i'r dail dyfu ac wedi iddynt baru a stopio galw. Mae hefyd yn aderyn sydd efo stori bersonol i mi. Wedi imi droi'n un-ar-ddeg mlwydd oed, dewisais fynd i Fferm y Fforest (lle'r roedd yn bosib eu gweld yn achlysurol ar gychwyn y mileniwm) bob penwythnos er mwyn ceisio gweld yr aderyn. Yn anffodus, bron bymtheg mlynedd wedyn, dwi dal heb weld yr un yna! Nid wyf yn barod i roi'r ffidl yn y to eto, er mae'n debygol nad ydy'r adar yna bellach, nag yn unrhyw le arall yn y ddinas. Ond maent yn adar hyfryd, ac yn werth teithio ychydig filltiroedd i'w gweld. Gobeithio, wrth blannu rhagor o goedwigoedd yn y dyfodol i gloi carbon, byddant yn dychwelyd i'n dinas yn y dyfodol agos, er mwyn i bob un ohonom eu mwynhau.

# Y Parchedig Ddr R. Alun Evans



'Roedd Tŷ Cwrdd Bethlehem, Gwaelod-y-garth, a Chapel y Wenallt, Amlosgfa'r Ddraenen, Caerdydd, yn llawn at yr ymylon ar ddydd angladd y Parchedig R Alun Evans ar y 4ydd o Fedi 2023.

Delwyn Sion oedd â gofal y ddau wasanaeth, gyda Delyth Evans â gofal am y gerddoriaeth.

Cyflwynwyd gweddi gan y Parchedig Beti-Wyn James, a bu dwy wyres Alun, Anna a Manon, yn adrodd soned 'Yr Hen Gapel, Llanbrynmair' o waith Iorwerth Cyfeiliog Peate.

Cyflwynwyd teyrngedau gan ddau ffrind a chyn gyd-weithwyr yn myd darlledu, Emlyn Davies ac Arwel Ellis Owen, ac ar ran Tŷ Cwrdd Bethlehem, gan Rhodri-Gwynn Jones.

Dyma beth o gynnwys y teyrngedau rheini.

**Emlyn Davies:**

Os ydach chi am ddod i nabod rhywun yn dda, fy nghyngor i fyddai hyn: ewch i bysgota efo nhw. Pan fo person ar lan afon yn chwipio'r dŵr, weithiau'n brwydro yn erbyn yr elfennau, ar adegau yn oer hyd at ei esgyrn, yn teimlo'n ddigysur, a'r amynedd yn brin, buan y dewch chi i weld beth ydy gwir ruddin dyn. Ac mi fûm i yng nghwmni R. Alun mewn pob math o amgylchiadau, a'r cyfan welais i oedd yr anwylaf o blant dynion, yn hawddgar, rhadlon a doeth, a bob amser yn barod ei gymwynas.

Wrth lunio sgript, o ran cyflwyno i gamera, yn ei holi treiddgar ac yn ei ddadansoddi deallus, roedd o'n athrylith wrth ei waith.

Dechreuodd arwain ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1969, a bu'n gwneud hynny'n ddi-dor tan 1996. Bu ei gyfraniad i'r Steddfod, yn gyhoeddus a thu ôl i'r llenni, yn ddisglair tu hwnt: yn gadeirydd y Cyngor, Llywydd y Llys a chadeirydd y Bwrdd Rheoli a chael ei ddyrchafu'n Gymrawd. Mi sgrifennodd o ddwy gyfrol ar gyfer y Steddfod, sef hanes y Rhuban Glas a hefyd 'Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn,' llyfr a ddiweddarwyd ganddo ar gyfer y Steddfod eleni. Mi fu'n gymwynaswr mawr i'r Urdd hefyd, wrth gwrs, ac yn un o arweinwyr Eisteddfod Llangollen am chwarter canrif.

Roedd ei heddychiaeth yn rhan annatod o'i bersonoliaeth, yn greiddiol i'w Gristnogaeth. Pan gafodd ei ddyrchafu i fod yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, teitl ei anerchiad o o'r gadair ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd 'Iesu'r Cymod,'a hynny yn y flwyddyn 2014, ar yr union adeg pan oedd yna bwyllgor Cymreig newydd gael ei sefydlu i goffau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd ei dad yn heddychwr wrth gwrs, ac felly Wynn ei frawd, ac roedd Alun yn gwbwl bendant mai sail ei heddychiaeth oedd y ffaith mai efengyl y cymod ydy efengyl Iesu Grist. Ac mi fyddai'n dweud yn aml nad absenoldeb rhyfel ydy heddwch, ond yn hytrach presenoldeb egnïol cariad anorchfygol Iesu Grist yn y byd.

Pan fyddai hi'n amser i ni ei throi hi am adre o lan y dŵr, waeth faint o bysgod fyddai yn y fasged, waeth sut roedd y tywydd wedi bod, mi fyddai Alun yn edrych o'i gwmpas yn hamddenol, ac yn troi ata' i ac yn dweud, "Ond dydan ni'n lwcus!" A'r pnawn ma, wrth feddwl am R. Alun, ei gwmnïaeth a'i gyfraniad sylweddol i fywyd y genedl, i fywyd bob un ohonom ni'n bersonol, i achos Iesu Grist y Cymodwr, wrth feddwl am y fraint o gael adnabod Alun, mi fedrwn ninnau i gyd ddweud, yn medrwn: "Ond dydan ni'n lwcus!"

**Arwel:**

Tua'r amser yma o'r dydd, toc wedi dau o'r gloch y bydde Alun a minnau yn cyfarfod, bron bob dydd am yn agos i ddeng mlynedd. Alun yn cyflwyno *Heddiw*, rhaglen deledu, ddyddiol ar BBC Cymru, a fi yn rhyw gyw olygydd.

Cyfnod llawn cyffro yn hanes Cymru, o'r Arwisgo yng Nghaernarfon i'r Refferendwm aflwyddiannus, cyntaf ar ddatganoli, gydag ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ar ddarlledu, a Mudiad Amddiffyn Cymru ar ail gartrefi, yn llenwi bron pob penwythnos.

Amser llawn tensiwn i ddarlledwyr oedd yn trio paratoi drafft cyntaf Hanes, tra bo'r protestiadau ar ddatblygiadau gwleidyddol yn digwydd yn fyw o'n cwmpas.

Unigolyn oedd Alun oedd yn barod i herio ac amau priodoldeb rhai penderfyniadau golygyddol, wrth hefyd gynnig ffordd ymlaen. Roedd yn gadarn ei farn bod mwy i ddarlledu cyhoeddus nag adlewyrchu cymdeithas, a bod dehongli digwyddiadau yn debyg o olygu hefyd y byddai'r gwasanaeth yn dylanwadu ar ddatblygiadau.

Roedd yn ddarlledwr crefftus a chraff. Fel holwr, roedd yn gwrando, yn we o sglein a sylwedd.

Roedd yna agosatrwydd naturiol, a chyfoeth yn ei Gymraeg, llafar ac ysgrifenedig. Roedd yn awdur toreithiog ac yn sylwebydd penigamp. Cyfathrebwr gwych, gyda gwên barod, a llais y gellir ymddiried yn llwyr ynddo.

Fe symudodd Alun o gyflwyno *Heddiw* i fod yn bennaeth y Ganolfan Ddarlledu ym Mangor, gan chwarae rhan bwysig yn natblygiad Radio Cymru yn ogystal â sefydlu Bryn Meirion yn ganolfan aml gyfryngol yn y Gogledd. Fe ddatblygodd Alun yn rheolwr a gweinyddwr hynod effeithiol, gyda pharch uchel i'w steil o gyfathrebu â'i staff.

Fe ddechreuodd ei yrfa yn y Weinidogaeth yn Llandysul a'i gorffen ym Methel, Caerffili a

Bethlehem, Gwaelod y Garth. Do, fe fu yn un o blant yr "anialwch gweinidogaethol" a swapio'r pulpud am y Stiwdio, ond yn ôl y daeth a hynny am fod yr "alwad i wasanaethu'r Arglwydd Iesu Grist yn gryfach na dim arall".

"*Mentro allan i'r afresymol fôr*" a wnaeth, gan ychwanegu ei fod wedi derbyn yr hyn oedd ar gael, derbyn pob her, a "*dangos bod byw yn golygu mwy na bodoli*".

**Rhodri:**

"'*Rwy'n taro gair i roi newyddion da ichi ynglŷn â'n hymdrechion i sicrhau Gweinidog i Fethlehem.*

*..., casgliad unfrydol y Pwyllgor oedd y dylem droi at y Parch. R. Alun Evans i gymryd gofal am Bethlehem ar y cyd â Bethel, Caerffili.*

*Gwnaethpwyd ymholiadau, a chael ymateb brwdfrydig ganddo ar unwaith.*

*'Roedd yn gyfarfod cynnes a llawn gweledigaeth ymarferol,*

*Mae hyn yn cynnig agor pennod newydd a chyffrous yn hanes Bethlehem..."*

Ac fel y gwyddoch, fe drowyd "*y cynnig*" yn "*dderbyn*" gan y naill ochr a'r llall, ... yn "fuddsoddiad" o'r radd flaenaf ac a dalodd "ddifidend" gwell na fedrai'r un farchnad stoc o gwmpas y byd hyd yn oed freuddwydio amdano.

Dechreuodd ar ei weinidogaeth ym Methlehem ym mis Ionawr 2008, a chynhaliwyd y Cwrdd Sefydlu ar y 19eg o Ebrill.

Ym myd y cyfryngau, mae hi'n ffasiynol iawn i fesur llwyddiant y dyddiau hyn yn ôl ffigyrau gwylio a gwrando.

Ond mi ddywed y rhai sy'n deall yn well, mai'r hyn ddylech chi fesur ydi'r "gwerthfawrogiad".

Beth bynnag fo'r achlysur – ar adegau o lawenhau ac o alaru, y llon a'r lleddf yn ein bywydau ni, bu'n dewis ei eiriau'n ddoeth ac yn gynnil, a'u mynegi'n ddidwyll a bu ei ymweliadau â chleifion a theuluoedd i gyd yn rhai cysurlon. 'Roedd ganddo rhywbeth i'w ddweud wrthym ni ym Methlehem, a phob Bethlehem a Bethel arall yr ymwelai â hwy dros Gymru benbaladr a thu hwnt i Glawdd Offa.

Ar ei ymddeoliad fel Gweinidog, comisiynwyd Rhys Dafis i gyfansoddi geiriau, a Ieuan Wyn, i gyfansoddi cerddoriaeth, a bu Côr Merched Bethlehem yn canu'r cyfansoddiad arobryn, "Y Bugail Da" yn yr oedfa ddiolch.

*"Dy alwad ddôi i'n harwain; ninnau'n dilyn*
*At droed y Garth, fan hyn, i gorlan Duw;*
*Buost Alun inni'n fugail da,"*

A'i sylw wrth ymddeol:-

"*Gan i mi ddechrau pregethu yn Llanbryn-mair yn 1954, dyna drigain mlynedd o draethu. Fe alla' i ddweud yn onest na fu hapusach blynyddoedd na'r saith mlynedd ddiwethaf.*

*Fel arfer, mae dyn yn dechrau trwy fwrw prentisiaeth a chyda phrofiad yn cyrraedd y brig.*

*I mi, mae'n union groes i hynny gan i mi ddechrau ym Mharadwys a gorffen yn y Gwaelod!"*

Bu'n ddiwyd yn paratoi, yn drylwyr a phwrpasol, ar gyfer ei oedfa olaf ar Sul y 25ain o Fehefin eleni. Cafodd gymeradwyaeth gan y gynulleidfa niferus, oedd, nid yn unig yn adlewyrchu'r gwerthfawrogiad o'r oedfa arbennig a gafwyd, ond a oedd yn gydnabyddiaeth deilwng o'i bresenoldeb a'i gyfraniad yn ein plith, fel Gweinidog, ac wedi'r ymddeoliad, fel cyfaill.

*"Yn y Gwaelod, gyda'n gilydd – y down*
*I Dŷ llawn llawenydd;*
*Hafan ddiffwdan ein ffydd,*
*Manna yng nghysgod Mynydd."*

Geiriau ei fab, Rhys Powys, yn sicrwydd bod Tŷ Cwrdd Bethlehem, Tŷ'r Bara, wedi elwa ar ei ganfed o gael rhannu a bwyta'r "manna" yng nghwmni Alun.

## Ras Cefn y Ddraig

Ddechrau mis Medi cwblhaodd tri o Gaerdydd - Steffan Phillips, Alun Gruffudd ac Owen Charles, ynghyd â'i ffrind coleg Nathan Welch o Gonwy, un o rasys mynyddoedd mwyaf heriol y byd sef Ras Cefn y Ddraig. Ras 6 diwrnod yw hon sy'n dechrau yng Nghonwy ac yn gorffen yng Nghaerdydd ac sy'n golygu rhedeg bron i 40 milltir y dydd. Rhaid hefyd dringo rhai o gopaon uchaf Cymru gan gynnwys y Glyderau, Tryfan, Crib Goch Yr Wyddfa, Cadair Idris, Pum Lumon a Phen-y- fan ar y ffordd!



Ni allai'r amgylchiadau ar gyfer y ras fod yn waeth gyda'r haul tanbaid a'r tymhereddau uchel yn rhoi sialens ychwanegol i'r rhedwyr. O'r 298 o redwyr a ddechreuodd y ras, dim ond 87 a lwyddodd i gyrraedd y llinell derfyn yng Nghastell Caerdydd, lle y daeth llu o deulu a ffrindiau ynghyd i groesawu'r pedwar. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw ar gyflawni'r gamp anhygoed hon ac am godi dros £8,500 tuag at y Gymdeithas MS a Thŷ Hafan.

# Holi Lowri Mair Jones, Enillydd Tlws y Cerddor yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd



Un o drigolion y brifddinas, Lowri Mair Jones enillodd Dlws y Cerddor eleni. Yn enedigol o Bontypridd, fe aeth Lowri i Brifysgol Manceinion i astudio Cerddoriaeth cyn dychwelyd i Gaerdydd i weithio i Ganolfan Mileniwm Cymru. Mae hi bellach wedi ymgartrefu ym Mhontcanna ac yn gweithio i'r BBC fel rheolwr cynyhyrchu.

***Llongyfarchiadau mawr i ti Lowri ar ennill Tlws y Cerddor am ddarn wedi'i ysbrydoli gan alaw neu alawon Cymreig. Fe ddewisaist ti i wneud trefniant o'r alaw werin Lisa Lân ar gyfer y cello, y piano a'r ffidil. Allet ti sôn ychydig am y darn a beth a wnaeth dy ysbrydoli i fynd ati i'w gyfansoddi?***

Dwi'n aelod o Gôr Godre'r Garth, ac yn ddiweddar wnaeth tri ohonom ni o'r côr ddechrau triawd piano (piano, ffidil a cello) i chwarae eitemau mewn cyngherddau'r côr. Ysgrifennais i'r darn ar ein cyfer ni i berfformio ar achlysuron perfformiadau'r côr, ac am ei fod yn ffitio canllawiau'r Eisteddfod, feddyliais i y bysai'n neis i gael adborth arni gan feirniaid Tlws y Cerddor. Nes i fyth ddychmygu y byswn i'n ennill! Fe wnes i gwrs Meistr mewn cyfansoddi, ond mae wedi bod yn 20 mlynedd ers hynny, felly doeddwn i heb gael lot o ymarfer cyfansoddi yn ddiweddar – dyma'r ail ddarn i mi gyfansoddi mewn 20 mlynedd. Dewisais i 'Lisa Lân' am ei bod hi'n alaw brydferth gyda nifer o bosibiliadau ac opsiynau harmonig yn deillio o'r alaw.

***Pa fath o gerddoriaeth wyt ti'n ei hoffi ac a oes gen ti hoff gyfansoddwr neu berfformiwr?***

Dwi'n hoff o nifer fawr o wahanol fathau o gerddoriaeth, mae'n anodd iawn i ddewis hoff un! Dwi'n aml yn gwrando ar waith cyfansoddwyr clasurol cyfoes, fel Olafur Arnalds, Nils Frahm, Johann Johannsson a Max Richter. O ran cerddoriaeth glasurol, mae unrhyw waith symffonig ar gyfer cerddorfa lawn yn sicr o fy niddori i – mae sain cerddorfa yn ysbrydoledig yn ei amrywiaeth, a'i ddyfnder. Dwi'n hefyd yn mwynhau mynd i gigs o bob math – cerddoriaeth 'bop', neu fandiau; cerddoriaeth electroneg – dwi'n hoffi *bron* bob dim!

***Rwyt ti hefyd yn chwarae'r delyn, y piano a'r ffidil. Faint o gyfle wyt ti'n ei gael i chwarae a pherfformio erbyn hyn?***

Dros y deng mlynedd diwethaf, mae'r cyfleoedd i chwarae fy offerynnau wedi mynd yn llai a dwi heb gadw i fyny gyda'r ymarfer yn dda iawn. Ond yn ddiweddar, dwi wedi sylwi faint dwi'n colli chwarae gyda phobl eraill a dwi wedi ail-gydio yn y ffidil a'r delyn er mwyn ymuno â grwpiau perfformio – am fwynhad, ond hefyd, bydd hyn yn ysbrydoli fi i gadw i ymarfer!

***Ers faint wyt ti'n byw yng Nghaerdydd a beth wyt ti'n ei hoffi fwyaf am fyw yma?***

Dwi wedi byw yng Nghaerdydd ers bron 20 mlynedd. Dwi'n dod o Bontypridd yn wreiddiol, felly doedd Caerdydd ddim yn teimlo'n bell iawn o adref. Dwi'n mwynhau byw mewn dinas ddiwylliannol, llawn creadigrwydd.

***Ar wahân i ennill Tlws y Cerddor, oes gen ti uchelgais yn y byd cerddorol neu unrhyw beth arall yr hoffet ti ei wneud yn y deng mlynedd nesaf?***

Dwi heb fynd mor bell â meddwl am uchelgais eto! Ond yn sicr dwi am gadw i gyfansoddi – a gweld lle wnaiff hyn fynd a fi. Mae gen i ambell brosiect i weithio arno ar hyn o bryd, a dwi'n gobeithio creu darnau ar gyfer pobol i berfformio, felly dwi'n agored i gynigion…!

---

## Côr Hen Nodiant

Yn dilyn eu llwyddiant yn Eisteddfod Boduan eleni mae Côr Hen Nodiant yn gwahodd aelodau newydd sydd dros 60 oed cyn Awst 2024 i ymuno er mwyn paratoi ar gyfer cystadlu eto y flwyddyn nesaf yn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf. O dan arweinyddiaeth Catrin Williams a'n cyfeilydd Marged Jones, mae'r côr yn mynd o nerth i nerth ac eleni oedd y deuddegfed tro o'r bron i'r côr ennill y gystadleuaeth gorawl i rai 60 oed a throsodd yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae gwybodaeth am weithgarwch y côr ar eu gwefan http://corhennodiant.cymru/.



Bydd y côr yn paratoi ar gyfer cyngerdd ac yn canu carolau at achos da adeg y Nadolig. Mae'r côr yn griw cymdeithasol ac yn edrych ymlaen at ginio dathlu ym mis Tachwedd. Hefyd mae nifer yn troedio draw i'r Chapter am sgwrs ar ôl ymarfer.

Mae'r côr yn ymarfer ar nos Fercher yng Nghapel Salem, Treganna, ac mae croeso i aelodau newydd gysylltu â'r côr drwy corhennodiant@gmail.com

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

**Steffan Webb sy'n cloriannu dechrau addawol tîm Pêl-Droed Dinas Caerdydd i'r tymor**

Mae goliau ac ennill yn newid popeth. Mae Caerdydd newydd ennill tair gêm yn olynol ac wrth ysgrifennu'r erthygl hon, rydym yn seithfed yn y bencampwriaeth. Am newid eleni ac mae'r ddwy fuddugoliaeth olaf wedi eu sicrhau heb Aaron Ramsey.

Rheolwr newydd y clwb yw Erol Bulut sydd "ddim yn hoffi colli". Mae'n gymeriad sy'n siarad yn dda ac yn cadw pethau'n syml. Mae'n cefnogi, deall ac yn ymddangos ei fod yn hoffi'i waith a'i chwaraewyr. Mae'r chwaraewyr yn ymddangos eu bod yn ei hoffi hefyd. Do'n i ddim yn gwybod dim amdano ond mae'n arwr yn barod.

Ro'n i'n poeni am ein harwr arall, Aaron Ramsey, gan feddwl ei fod yn rhy hen, gyda gormod o anafiadau, ddim yn ddigon cryf a ddim yn gallu chwarae am 90 munud. Mae'n debyg fy mod i'n anghywir! Mae'n siarad yn dda ac yn arwain hyd yn oed o'r eisteddle. Mae'n brysur yn ail sefydlu ei hunan yn arwr newydd.

Ar ddechrau'r tymor do'n i ddim yn gweld ni yn cael pwynt. Roedd gemau cynnar yn erbyn Leeds, Caerlŷr ac Ipswich wedi addo cymaint ond yn y diwedd heb gyflawni dim. Un gêm gyfartal a dwy golled er y gallem fod wedi ennill y dair. Anodd credu'r frawddeg yna ond mae'n wir.

Ac wedyn, gan nad oedden ni wedi ennill y gemau yna, roedd gêm Abertawe yn holl bwysig. Roedd gan Aaron Ramsey a'n rheolwr ni ddawn dweud a gwneud y pethau iawn. Doedd dim syndod ein bod wedi ennill. Roedd 28,000 yno i weld a mwynhau ac mae'r ddinas yn fyw gyda gobaith a bywyd newydd ymhob siop, tafarn a bws ers hynny. Bydd y disgwyliadau hyd yn oed yn fwy ar ôl curo Sunderland.

Mae'n rhy gynnar i wybod beth fydd yn digwydd nesaf, ond mae'r agwedd "sgorio mwy na'r tim arall" yn hwyl. Mae modd breuddwydio am y gemau ail gyfle, yn enwedig pan rydym yn seithfed, gyda gemau'n dod yn erbyn timau ar y gwaelod. Mae Dolig wedi dod yn gynnar ac efallai bydd modd gweld Aaron Ramsey nôl yn yr uwch gynghrair gyda ni. Prynwch docyn nawr.

**Tîm Pêl-droed Menywod Cymric**

Sefydlwyd Titws Taf, tîm pêl-droed menywod Cymric, nôl yn 2018 gan grŵp o fenywod yng Nghaerdydd oedd eisiau chwarae pêl-droed drwy gyfrwng y Gymraeg ond heb unrhywle i fynd. Rydym yn glwb sy'n croesawu aelodau o bob oed a gallu, gyda'r pwyslais ar weithio fel tîm a bod yn gyfeillgar. Mae'r naws groesawgar yn y clwb yn bwysig iawn i ni, ac rydym yn falch iawn o'n arwyddair "Pŵer i bob menyw". Rydym yn credu yn gryf fod pêl-droed i bawb ac eisiau hybu chwaraeon i fenywod o bob oedran a chefndir.

Mae'r ymarferion yn cael eu cynnal yn wythnosol ar nos Iau o 7- 8, naill ai yn Gôl neu ar gaeau Trelai. Rydyn ni'n rhan o gynghrair ac yn chwarae gêm yn fisol. Y llynedd daeth Titws Taf yn drydydd allan o saith tîm. Mae ein cit yn un lliwgar a hapus ac yn efelychu teimlad y tîm yn berffaith.

Dros y blynyddoedd rydym wedi cael nifer o brofiadau gwych, gan gynnwys dysgu Cymraeg i dîm pêl-droed menywod Cymru a'u gwylio yn ymarfer! Fe ddaeth Gemma Grainger a Kath Morgan i gynnal ymarferion ac roedd y ddwy yn ysbrydoliaeth fawr i'r tîm.

Os ydych chi eisiau ailgydio mewn chwarae pêl-droed, neu am chwarae am y tro gyntaf, cysylltwch â ni drwy ein e-bost (peldroed_menywod_cymric@hotmail.com) neu drwy gyfryngau cymdeithasol (@TitwsTafCymric).

*Non Williams*




*Titws Taf*

# Cylch Cinio Merched Caerdydd

Dyma hi'n ddechrau'r Hydref, a dechrau newydd i flwyddyn Cylch Cinio Merched Caerdydd. Fe fydd y Cylch yn cyfarfod eleni yng Nghlwb Golff Llanisien. Cynhelir ein cyfarfod cyntaf ar nos Iau 12 Hydref a'n siaradwraig wadd ydy Sian Thomas cyflwynwraig boblogaidd y rhaglen P'nawn Da ar S4C. Croeso mawr i'r aelodau presennol, a chroeso arbennig i aelodau newydd wrth gwrs.

Os hoffech ragor o fanylion, cysylltwch os gwelwch yn dda gydag Elin Tudur 07768095678 neu Mali Rowlands 076981137898.

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



## Crwydro'r Hen Lwybrau

**Gwilym Dafydd**

**Clwb Gwylio Adar**

Bydd rhai ohonoch yn cofio ein bod yn cyfarfod ar fore Sadwrn cyntaf o'r mis. Doedd dim cyfarfod yn mis Awst oherwydd yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan. Daeth wyth ynghyd ar fore Sadwrn, 2 Medi, sef Ian a Jan, Allan, Tudur, Lynda a Rhodri o Drecelyn, Eirian a fi. Arweiniwyd y daith unwaith eto gan Eirian yn ardal Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd.



Clywsoch efallai eu bod nhw wedi ailagor y cronfeydd dŵr i'r cyhoedd draw yn Llanisien – mae Eirian yn awyddus ein bod yn mynd draw yno am dro bach – bore Sadwrn cyntaf mis Tachwedd o bosib. Os felly byddaf yn sicr o gyhoeddi gair yn trydar @Gwilym Dafydd – cyn 4 Tachwedd!

**20 milltir yr awr**

Beth tybed yw eich barn chi am yr uchod? Ymddengys nad yw pawb yng Nghymru o blaid! Does dim teimladau cryfion gen i o blaid nac yn erbyn. Rydym wedi arfer â'r 20 milltir yr awr i geir yma yn Yr Eglwys Newydd ac mewn ardaloedd eraill o'r brifddinas ers misoedd lawer.

Wrth deithio nôl o Amlwch, Ynys Môn i Gaerdydd ar ddydd Sadwrn, 23 Medi, sylwais ar rai arwyddion 20 milltir yr awr newydd megis yn Benllech. Mae'n wir ei fod tua dwy filltir o hyd ond newyddion da i bawb sy'n byw yno ar y stryd fawr, baswn i'n meddwl.

Cymerodd saith awr i ni deithio rhyw 200 milltir ond mae'n wir ein bod wedi aros ym Mhorthmadog am dri chwarter awr am goffi ac awr a chwarter yn Llanidloes am ginio blasus.

**Gwyliau ym mis Medi**

Un o'r manteision o fod yr ochr anghywir i 60 oed yw ein bod yn cael mynd ar wyliau ym mis Medi!

Wel dau am bris un megis gan fod Eirian yn fam fedydd i Cathryn Mentrau Iaith Cymru a'i pharti priodas un nos Sadwrn yn Dylans Llandudno. Syniad gwych oedd aros am wythnos yn hen westy Castell Deganwy – ceir 34 fflat yno erbyn hyn a ni dreuliodd gwyliau bach yn rhif 33. Newyddion gwych oedd clywed yng ngorsaf Llandudno bod modd i bensiynwyr Cymru deithio yn rhad ac am ddim ar y rheilffordd rhwng Llandudno a Blaenau Ffestiniog. Mae'r golygfeydd yn hyfryd – hyd yn oed mewn gwynt a glaw ar fore dydd Llun!

Mewn a ni i gaffi Antur Stiniog a hanner awr yn ddiweddarach roedd yr haul yn gwenu ac awyr las. Un o blant y Blaenau yw Eirian a bu'n byw yno tan yn saith oed. Mae'n siwr ei bod wedi mwynhau troedio hen lwybrau am ychydig oriau – er bod yr hen ysgol gynradd wedi diflannu ac enw mans Eglwys (Capel) Maenofferen sef Llys Myfyr ar y Sgwar a'r parc gyferbyn, ddim yno bellach. Ond yn y llun gwelir ar y llawr uchaf hen ystafell wely Eirian a stydi ei thad lle bu'n cyfansoddi ei bregethau cyn i'r teulu o bedwar symud i Lannerch-y-medd, Ynys Môn.



***Edrych draw at y Moelwynion a Chwm Bowydd o Ben Carreg Defaid***

**Gohirio Ffair Lyfrau Cymdeithas Bob Owen, Porthaethwy**

Oherwydd presenoldeb y concrid RAAC yn Ysgol Gyfun David Hughes, Porthaethwy ni fydd modd cynnal y Ffair Lyfrau ar ddydd Sadwrn, 14eg Hydref. Gobeithir aildrefnu yn y dyfodol agos.

# Pobol y Rhigwm

Weithie, ceir cystadleuaeth gref o ran nifer ond gwan o ran safon. Roedd cystadleuaeth y mis hwn ar y pegwn arall, oherwydd dau ymgais yn unig ddaeth i law'r beirniad, ond dau ymgais cryf, gyda hynny! Synnais am y diffyg cystadlu, mewn gwirionedd, gan mai tasg benagored iawn oedd hi y tro hwn o ran mesur. Hyderais wedyn y bydde gosod 'Dail Crin' yn deitl yn cymell y rhigymwyr i ymateb i naws troad tymhorol yr adeg hon o'r flwyddyn. A, wel, fel y mae'n siŵr y synhwyroch eisoes, doedd diffyg cystadlu ddim yn gyfwerth â diffyg safon, ac mae *Twp Gear* a *Garddwr* fel ei gilydd wedi fy mhlesio'n fawr. Y peth mwya rhwystredig, mewn gwirionedd, oedd penderfynu rhwng dau gynnig mor wahanol i'w gilydd – pennill ysgafn ac englyn dwys! Mae'r ddau ymgeisydd yn teilyngu'r wobr gyntaf ond, ysywaeth, rhaid i feirniad fodloni ar ddewis un enillydd! Dyma bwysleisio, felly, mai chwaeth beirniad sy'n dwlu ar dymor yr hydref sy'n sail i'r penderfyniad terfynol!

Ar Landrover Johnny disgynnodd
y ddeilen gynhesaf erioed.
Difrodwyd y paent, ac ers hynny,
dio ddim wedi dod at ei goed.

***Twp Gear***

Dyma bennill gwirioneddol ddoniol sy wedi'i fydryddu'n gampus gan *Twp Gear* (wrth fy modd gyda'r ffugenw, gyda llaw!). Mae'n apelio'n gry at fy hiwmor – glywoch chi'r fath ymadrodd ag "y ddeilen gynhesaf erioed" o'r blaen?! Mae'n ddichon bod modd mesur tymheredd dail, am wn i! Druan â Johnny, roedd hyn yn gryn drawma iddo, sy wedi'i amlygu'n glyfar gyda'r chwarae ar idiom cyfarwydd (a hanfodol Gymreig, sylwer) yn y llinell glo! Mae'n siŵr fy mod i wedi sôn eisoes mai nage tasg rwydd yw sgrifennu penillion gwirioneddol ddoniol, sy'n ergydio mewn cyn lleied o eiriau. Mae ffraethineb swreal *Twp Gear* wedi llwyddo i'r dim.

Os yw'r dail yn dadfeilio – yn nyddiau
Anniddig eu gwywo,
Yn wyrth, ar ôl eu syrthio,
Daw gobaith o'r graith a'r gro.

***Garddwr***

Mae englyn *Garddwr* wedi fy mhlesio'n fawr. Gadewch inni ystyried y grefft yn gynta. Mae'n cynganeddu'n gywir ac yn gyffyrddus. Fel mae'n digwydd mae *Garddwr* wedi llwyddo i gynnwys y bedair gynghanedd sylfaenol yn ei englyn (Lusg, ll. 1; Groes, ll. 1-2, Draws, ll. 3, Sain, ll. 4)! Wn i ddim ai ar ddamwain ddigwyddodd hynny ond dyma gynganeddwr sy'n siŵr o'i bethe! Sylwer, yn ogystal, bod y llinell gynta'n gynghanedd Lusg *Wyrdro* (gyda'r 'eil' yn 'dadf**eil**io' yn ateb yr 'ail' yn 'd**ail**')! Da iawn wir! Mae'r englyn yn llifo'n esmwyth hefyd. Mae hynny'n gwneud cymaint o wahaniaeth, credwch chi fi. Beth am y sylwedd, wedyn? Wel, englyn diamser yn y traddodiad clasurol sy yma – ond fel y profodd Alan Llwyd yn Steddfod Llŷn ac Eifionydd eleni, dyw hynny ddim yn llyffethair, os yw wedi'i wneud yn iawn, ac mae *Garddwr* yn bendant wedi'i wneud yn iawn! Dyma bortread melancolig o'r hydre sy wedi gadael ei farc ar y beirniad – mae'r paladr yn delweddu'n rhagorol ac yn defnyddio'r gynghanedd yn effeithiol; "dail yn dadfeilio" "[d]yddiau anniddig eu gwywo". Llwyddiant pennaf englyn *Garddwr* yw'r hen dechneg oesol honno o gyferbynnu rhwng y paladr a'r esgyll. Mae'r englyn ei hun yn fetaffor am dro ar fyd ar ôl dyddiau tywyll. Mae "gwyrth" y tymhorau yn golygu bod "gobaith" am wanwyn. Mae cynghanedd Sain y llinell glo, wedyn, yn gwahodd y geiriau mwya cymwys unwaith eto i gyfleu pruddglwyf yr hydref, yn y "graith" a'r "gro". Ardderchog, *Garddwr*, a dyma eich annog i gystadlu ar yr englyn mewn cystadlaethau eraill, hefyd achos mae yma allu amlwg.

Llongyfarchiade i *Garddwr*, felly (ac i *Twp Gear* mewn gwirionedd), diolch i'r ddau a fentrodd am gynnal y gystadleuaeth y mis hwn, a gwneud hynny'n llwyddiannus. Gobeithio y bydd tasg y mis nesa'n cymell rhagor o rigymwyr – mae cystadlaethau'r gorffennol wedi profi'n rheolaidd bod nifer iach o rigymwyr medrus yn eich plith! Amdani

**Enillydd Hydref**
**John Emyr, Radur**

**Cystadleuaeth mis Tachwedd**

**Triban: Coelcerth**

*Aron Pritchard*

*Anfonwch eich cynigion erbyn 25 Hydref at:*
*eirianagwilym@gmail.com*
*Gwobr: Tocyn llyfr: £10*



# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*



Yr Athro E. Wyn James

**Siemsyn Twrbil a Thribannau Caerdydd – rhan 1**

Y triban yw un o'r mesurau mwyaf hoffus ac agos-atoch yn ein barddoniaeth. Pennill o bedair llinell yw triban, ond cafodd yr enw '**tri**ban' am fod ynddo dair prif odl, sef ar ddiwedd llinellau 1, 2 a 4. Yn ogystal, fe geir odl gyrch rhwng diwedd llinell 3 a chanol llinell 4. Pennill byr, llawn odlau yw'r triban, felly, ac o ran cywair, mae'n syml ac uniongyrchol ei fynegiant, yn werinol ei naws, ac yn rhwydd i'w gofio.

Er bod beirdd ar hyd a lled Cymru wedi canu ar y mesur hwn ar draws y canrifoedd, fe'i hanwylid yn arbennig gan feirdd gwlad Morgannwg erbyn y 18fed ganrif a'r 19eg ganrif. Ac yn wir, aeth yr ysgolhaig mawr Griffith John Williams (1892–1963), a fu'n Athro'r Gymraeg yng Nghaerdydd, mor bell â dweud 'fod tribannau Morgannwg yn un o brif ogoniannau llenyddiaeth boblogaidd y Cymry'.

Fe soniais rywfaint am dribannau mewn erthyglau yn y golofn hon yn rhifynnau Chwefror a Mawrth 2021. (Mae modd eu darllen yn electronig ar wefan *Y Dinesydd*: http://dinesydd.cymru/teithiau/.) Trafod y triban yn gyffredinol a wnes i yn yr erthygl gyntaf, a chanolbwyntio yn yr ail ar dribannau a oedd yn enwi Caerdydd yn benodol.

Un o nodweddion tribannau Morgannwg yw eu bod yn hoff iawn o enwi pobl a lleoedd. Dywed G. J. Williams fod y tribanwyr yn cael 'hwyl wrth fydryddu enwau lleoedd, fel petaent yn eu hanwesu'. Ond ysywaeth, dim ond dau driban 'traddodiadol' y llwyddais i ddod o hyd iddynt a oedd yn enwi Caerdydd, a'r ddau hynny ond yn crybwyll y dref ymhlith mannau eraill, yn hytrach na'u bod yn dribannau am Gaerdydd yn neilltuol.

Awgrymais yn f'erthygl ar dribannau Caerdydd ym mis Mawrth 2021 y byddai'n dda gweld cystadleuaeth llunio triban yn cynnwys yr enw 'Caerdydd' yng ngholofn 'Pobol y Rhigwm' yn *Y Dinesydd* neu yn rhestr testunau Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd. Ac yn wir, wedi imi lunio'r erthygl honno, deuthum ar draws dau driban sy'n enwi Caerdydd a fu mewn cystadleuaeth eisteddfodol.

Yn 2006, gosodwyd cystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe a'r Cylch ar y testun 'Cyfres o dribannau (hyd at 8) i gynnwys enwau llefydd'. Mae cysylltiad agos rhwng y gystadleuaeth hon a dau o gynheiliaid y bywyd Cymraeg yng Nghaerdydd a'r Fro, oherwydd beirniad y gystadleuaeth oedd y diweddar Islwyn Jones ('Gus'; 1931–2015), a fu am flynyddoedd yn ddarlithydd yn y coleg hyfforddi athrawon yn y Barri, a'r un a roddodd y wobr oedd y ddiweddar Mallt Anderson (1926–2021), un o brif sylfaenwyr Cymdeithas y Dywysoges Gwenllian.

Yn ei feirniadaeth, mae Islwyn Jones yn dyfynnu rhai o dribannau gorau'r ymgeiswyr anfuddugol, ac yn eu plith cawn hwn gan 'Cwasi', sydd wedi ei 'ysbrydoli' gan y Senedd (neu'r Cynulliad Cenedlaethol fel yr oedd bryd hynny):

O Fae Caerdydd âi'r llonge,
A'r gwynt yn llenwi'r hwylie,
Ond yn lle gwynt da'th awel boeth
A sŵn 'gwŷr doeth' yn dadle.

A dyna, wedyn, y triban crafog hwn gan 'Dafydd', sydd hefyd yn cyfeirio at y Cynulliad:

Caerdydd sy'n llawn brwdfrydedd,
Caerdydd yw cartre'r Senedd,
Caerdydd sy'n cael y jam i gyd,
'Sdim byd yn dod i'r gogledd.

Gwnaeth Tegwyn Jones gymwynas fawr trwy gyhoeddi casgliad helaeth o 677 o dribannau dan y teitl *Tribannau Morgannwg* yn 1976, ac yn ogystal â'r ddau driban sy'n enwi Caerdydd y soniais amdanynt yn f'erthygl ym mis Mawrth 2021, ceir yn y gyfrol honno nifer o dribannau sy'n enwi rhai o'r pentrefi sydd bellach yn rhan o'r ddinas, ac at y rheini y trown yn awr.

Nid yw'n syndod, efallai, o gofio ei hynafiaeth a'i chadeirlan mai Llandaf yw'r faestref a enwir amlaf yn y tribannau, er mai wrth restru gwahanol fannau y mae enw Llandaf yn digwydd fynychaf, megis yn y triban hwn, sy'n enwi nifer o'r llannau ym Mro Morgannwg. Ac fel sydd mor wir am dribannau Morgannwg yn gyffredinol, mae'r dinc lafar yn amlwg ynddo:

Llandŵ, Llandaf, Llandocha,
Llan-fair a Llanbed-ucha,
Llantrisant sydd, Llangeinwr syw,
Llangynwyd yw'r lle gora.

Plwyf i'r de o dre'r Bont-faen yw'r 'Llan-fair' sydd dan sylw yn y triban hwn; ei enw Saesneg yw 'St Mary Church'. Llanbedr-ar-fynydd, rhwng Llanharan a Thonyrefail, yw 'Llanbed-ucha'; yr enw arall arno yw 'Peterston-super-montem' – sy'n esbonio'r 'ucha', wrth gwrs.

Caiff Llandaf ei henwi mewn dau driban sy'n dilyn fformwla debyg i'w gilydd; ac mae un o'r rheini hefyd yn enwi lle arall sydd bellach yn rhan o ddinas Caerdydd, sef Rhiwbina. Symud o'r gogledd i'r de y mae'r ddau driban yn ddaearyddol, o Flaenau Morgannwg hyd Fryste (*Bristol*), a phethau'n gwella po fwyaf i'r de yr awn!

Mae'n bwrw glaw'n y Blaena,
Mae'n dechra pican yma,
Mae'n heulo'n deg ar bont Llandaf,
Mae'n dywydd braf ym Mrysta.

Mae'n dechra dyddio yma,
Mae'n ddydd ar ben Rhiwbeina,
Mae'n cwnnu'r houl ar bont Llandaf,
Mae'n ola braf ym Mrysta.

Ystyr 'pigan' yw 'bwrw glaw yn ysgafn'; ac mae caledu'r 'g' yn 'c', sef 'pican', yn un o nodweddion y dafodiaith leol, y Wenhwyseg. Ystyr 'cwnnu'r houl' yw 'codi'r haul', a ffurf lafar ar 'golau' yw 'ola'.

Mae triban arall sy'n enwi Llandaf yn rhestru nifer o fannau eraill yn yr hyn sydd bellach yn orllewin dinas Caerdydd.

Mae merched glân yn Nhyllgo'd,
Ac yn Llandaf rhai hynod,
Ac yn y Caera aml rai,
Ond yn Nhreläi'r cleciod.

Digwydd yr enw 'Caerau' mewn sawl triban. Y Caerau yng ngorllewin Caerdydd yw'r un sydd mewn golwg yn y triban hwn, ond y Caerau ger Maesteg sydd dan sylw mewn tribannau eraill, ac yn achos rhai tribannau, mae'n anodd bod yn sicr at ba Gaerau y cyfeirir.

Ond pwy oedd awdur y triban hwnnw am ferched 'y Caera' yng ngorllewin Caerdydd? At hynny y trown y tro nesaf.

*(I'w barhau)*

# Aelwyd Hamdden

Daeth aelodau Aelwyd Hamdden ynghyd yng Nghapel Bethel Rhiwbeina i gyfarfod cyntaf y flwyddyn 2023/24. Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, ail etholwyd y swyddogion, Beth Killen - ysgrifennydd, Parch. Gwilym Wyn Roberts - trysorydd, a Mair Morgan - llywydd.



Ar ôl cael adroddiadau'r swyddogion, cafwyd sgwrs ddiddorol gan un o'n haelodau, Mrs Elisabeth Gilpin. Magwyd Elisabeth yn Rhosllanerchrugog a hyfryd oedd clywed acen y Rhos. Dywedodd wrthym sut y cyfansooddwyd y gân "O na fyddai'n Haf o hyd". Roedd gan William Davies, bachgen o'r Rhos, ffrind a oedd yn wael gyda'r dicáu. Roedd wedi treulio amser wrth ymyl gwely'r claf, ac aeth tuag adref. Ar y ffordd, eisteddodd wrth ymyl nant a dyna pryd cyfansoddwyd y gân.

Yna aeth ymlaen i sôn am y Plas Eglwsig. Ar Ŵyl y Banc, arferiad yn yr ardal oedd cerdded o'r Rhos i fyny'r mynydd ac i lawr i'r cwm cul yr ochr arall, a chyrraedd yr hen blasty du â gwyn, Un hanesyn am y plasty oedd sut y cipiwyd Nest, merch Rhys ap Tudur, gan ei chefnder Owain ap Cadwgan, ac a aeth â hi a'u phlant i gaban hela ger y Plas i'w cuddio. Bu'r plas yn gartref i'r Capten John Jones, gŵr chwaer Oliver Cromwell, yn ystod y Rhyfel Cartref. Yn ystod yr ail Rhyfel Byd, bu Americanwyr yno. Erbyn hyn mae'r plas yn adfail.

Bore Cymdeithasol oedd yr ail gyfarfod, pawb yn mwynhau sgwrs a chwpaned a chacen.

Ym mis Hydref cawn awr o ganu gyda Trystan a Siân Francis, ar Hydref 11, a Bore Cymdeithasol ar Hydref 25. Mae croeso i unrhywun i ymuno gyda ni, yng Nghapel Bethel, Maes y Deri, Rhiwbeina o 11 tan 12.

# Merched y Wawr Y Felin

**Noson gyda Bethan Rhys Roberts**



Braf oedd croesawu hen aelodau a rhai newydd ar gychwyn tymor newydd Mae'r tâl aelodaeth o £25.00 yn cynnwys 4 rhifyn o gylchgrawn y *Wawr*. Beth am ymuno gyda ni y mis nesaf ar nos Iau, 19eg Hydref am sesiwn Tai-chi gyda Avril Williams am 7.30 yh yn Festri Capel Methodistiaid yr Eglwys Newydd, Ffordd Kelston, Yr Eglwys Newydd. Os am ymuno â ni, e -bostiwch mywyfelin@gmail.com neu Janet (Ysgrifennydd) ar 07810 363232 neu cysylltwch Glenys (Cadeirydd) ar 07857 342464.

Cafwyd dechreuad gwych i'r tymor yng nghwmni y newyddiadurwr brofiadol Bethan Rhys Roberts, wyneb cyfarwydd i ni gyd ar Newyddion 9.

Rhannodd bod ganddi ddiddordeb cynnar iawn mewn adrodd straeon i'r graddau iddi gychwyn papur newydd ei hun yn blentyn saith oed ar gyfer teulu ei mam a oedd yn hanu o Benybont ac nad oedd yn siarad Cymraeg ac ar gyfer teulu estynedig ei thad a oedd yn siaradwyr Cymraeg o Ynys Môn. Nododd ei bod wrth ei bodd gyda theledu byw, wrth weithio ar noson etholiad a bod yn rhan o dîm sy'n gweithio'n galed i roi'r newyddion diweddara i'r cyhoedd. Cafodd y fraint o holi Prif Weinidogion a chadw trefn ar wleidyddion dros y blynyddoedd

Erbyn hyn rydym yn medru darlledu yn syth o'n ffôn felly mae yn bwysicach nag erioed bod newyddion yn ddi-duedd e.e. gwahanol naratif Putin a Zelensky, etholiad yr UDA 2020 a digwyddiad Capitol Hill. Nododd hefyd bod cymaint o waith yn mynd mewn i wirio lluniau gan y cyhoedd er mwyn osgoi rhannu newyddion ffug e.e. digwyddiad diweddar yn Nhreláі. Rhannodd hefyd brofiadau dirdynnol iddi eu profi fel newyddiadurwr ifanc wrth deithio i Dde Sudan, Croatia ac Uganda i ganfod y gwirionedd yn wyneb y straeon yr oedd gwleidyddion yn eu gwerthu i'r cyhoedd.

Ar wyliau diweddar gyda'r teulu yn Moroco, cafodd brofiad brawychus pan welodd effaith y ddaeargryn o'i chwmpas ar y bobl leol a'i theulu. Yn ddi-os mi fyddwn ni gyd o hyn allan yn gwylio'r newyddion trwy lygaid gwahanol gan gydnabod y gwaith caled sydd yn mynd i ganfod y gwirionedd i'w rannu gyda ni y gwylwyr. Ar ran Cangen y Felin diolch o galon Bethan am noson fythgofiadwy.

*Catrin Saunders*

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Hyfryd oedd cwrdd yn Eglwys Teilo Sant ar Sul olaf Medi i glywed yr Offeren yn Gymraeg unwaith eto. Cawsom doriad dros wyliau'r haf, felly roedd mwy fyth o edrych ymlaen at glywed geiriau'r gwasanaeth yn iaith y nefoedd. O fis Hydref ymlaen, ailgychwynwn ein harfer o gynnig paned yn y neuadd ar ôl yr Offeren. Gobeithio bydd llawer yn derbyn y cyfle i fwynhau sgwrs a thamaid o fara brith cyn troi am adre.

Fel y gwelwch os ewch heibio'r eglwys, mae gwaith yn digwydd ar yr adeilad dros y ddeufis nesaf. Bydd gwaith cyweirio angenrheidiol ar y tu allan, ac yna, pan fydd y sgaffaldau'n symud i'r tu mewn, bydd gwaith peintio a diweddaru'r systemau goleuo a sain. Mae'r eglwys ar gau yn ystod yr wythnos o achos y gwaith, ond mae popeth yn glir ar ddydd Sul ar gyfer yr addoliad.

Codwyd yr eglwys wreiddiol ar Old Church Road yn 1925 ond yn 1964 dymchwelwyd honno, a chodwyd yr adeilad presennol ar yr un safle. Agorodd yr eglwys fodern ei gwedd ar 18 Mehefin. Dros y blynyddoedd, cyflwynwyd gwahanol elfennau o'r celfi a'r cerfluniau, ac erbyn 2005 roedd y cyfan wedi'i gwblhau. A dyma hi bron i ganrif yn ddiweddarach, yn cael gwisg lân, newydd. Edrychwn ymlaen at ei gweld.

Offeren fisol: dydd Sul 29 Hydref am 4.30 yn Eglwys Teilo Sant, Yr Eglwys Newydd CF14 1AD, gyda phaned i ddilyn.

Offeren fisol: dydd Sul 26 Tachwedd am 4.30 yn Eglwys Teilo Sant.

Hefyd ar gael ar lif byw yr eglwys ar ei gwefan: stteilos-olol.co.uk

*Cyswllt:* carys@caerdelyn.com

## EGLWYS MINNY STREET

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Dyma drefn oedfaon mis Hydref: bydd yr oedfa foreol yn cael ei chynnal bob Sul am 09:30 gydag oedfa bregeth ychwanegol am 10:30 ar yr ail Sul; bydd yr oedfa hwyrol am 18:00 bob nos Sul heblaw 8 Hydref pan fyddwn yn ymuno â'n cyfeillion yn Eglwys y Crwys yn eu hoedfa am 15:00. Ar y trydydd Sul yn y mis, cynhelir Ysgol Sul i'r plant hŷn; bydd PIMS yn cyfarfod yn fisol am 17:00 ar brynhawn Sul cyntaf y mis. Bydd cyfle i ymuno â sawl oedfa drwy gyfrwng *Zoom.*

Edrychwn ymlaen at arweiniad ein Gweinidog yn oedfaon 1, 8, ac 15 Hydref. Bydd yr oedfa hwyrol ar y 1af yn oedfa gymun ac oedfa 09:30 ar yr 8fed yn oedfa ddiolchgarwch i'r teulu. Ar 22 Hydref, edrychwn ymlaen at groesawu'r Parchedig Eirian Wyn Lewis atom. Ar Sul olaf y mis, bydd oedfa'r bore yng ngofal pwyllgor y Gymdeithas a Siân Meinir fydd yn arwain addoliad yr hwyr.

**Gweithgarwch y mis**

Ar fore Llun y cynhelir cyfarfodydd Seilo (9 a 23 Hydref am 10:30); gyda'r hwyr ar nos Fawrth y cynhelir Bethania (10, 24 a 31 Hydref am 19:30). Am yn ail nos Fawrth, y bydd y Gymdeithas yn cyfarfod (3 a 17 Hydref am 19:30). Bydd cyfle i gymdeithasu dros bryd bwyd yn Koinônia a thros baned mewn bore coffi ar aelwyd aelod yn ystod y mis.

**Cydymdeimlo**

Cofiwn yn annwyl a diolchgar am ddau o'n haelodau, sef Mari Price (Llandaf) a John Davies (Yr Eglwys Newydd). Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r ddau deulu a'u holl gyfeillion.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Dymuniadau Da**

Dymunwn bob bendith i Morus Bowen wrth iddo ddechrau ar ei gwrs ym mhrifysgol Caerfaddon. Fe welwn eisiau ei gymorth technolegol gwerthfawr wrth ffrydio oedfaon y Sul.

**Croeso**

Wrth i ni golli rhai o'n pobl ifanc ni i wahanol golegau, braf iawn yw gallu croesawu myfywyr newydd o wahanol rannau o Gymru wrth iddynt ddechrau ar eu cyrsiau yng Nghaerdydd. Estynnwn groeso cynnes iddynt gan weddïo y byddant yn teimo'n gartrefol yn ein plith.

**Priodas**

Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i Lois ac Ura ar eu priodas yng nghapel Y Garn, Bow Street, Aberystwyth yn ddiweddar. Daw Ura o Ffiji yn y Môr Tawel ac yn ystod y gwasanaeth, hyfryd oedd ei weld yn ei wisg draddodiadol a chlywed rhan o'r Beibl yn cael ei ddarllen yn iaith Ffiji.

**Trip y Capel**

Ar un o'r Sadyrnau gorau o safbwynt y tywydd ym mis Medi, aeth nifer o'r aelodau a'u teuluoedd a ffrindiau ar drip i Barc Gwledig Bryngarw ger Penybont. Cafwyd amser braf iawn gyda digon o gyfleusterau i ddiddanu pob oedran.

**Paned a Sgwrs**

Braf iawn yn un o'n cyfarfodydd yn ddiweddar oedd clywed Catrin Lewis yn sôn ychydig am y ddeng mlynedd y bu hi a'i gŵr Gwydion yn wardeiniaid yng nghanolfan Gristnogol Bryn y Groes yn y Bala. Soniodd Catrin am dri pheth yn benodol. Yn gyntaf soniodd am y fraint o gwrdd â gwahanol Gristnogion a gweld gwaith Duw yn eu bywydau. Yn ail soniodd am bwysigrwydd gweddi wrh orfod wynebu gwahanol heriau a'r cysur o wybod bod eraill yn gweddïo drosti hi a Gwydion yn y gwaith. Yn drydydd soniodd am y pwysigrwydd o sylweddoli bod gennym Dduw mawr sy'n benarglwydd ar y cyfan.



***Yr eglwys Teilo Sant gwreiddiol ar Old Church Road***

## SALEM, TREGANNA

**Dychwelyd**



*Mari Jones 'Mewn Cymeriad'*

Rydym yn falch iawn o weld ein haelodau'n dychwelyd ar ôl yr haf, a'r plant yn troi am yr Ysgol Sul.
Cawsom gyfle fis Medi i fwynhau cynhyrchiad 'Mewn Cymeriad' o hanes Mari Jones a'i breuddwyd o brynu Beibl, gan ddilyn ei thaith yn cynilo'i cheiniogau a cherdded milltiroedd i'r Bala i'w brynu yn y diwedd. Diolch yn fawr iawn i Ffion Glyn am ei chyflwyniad hoffus, hwyliog a byrlymus. Roedd pawb wedi mwynhau'n arw, gan gynnwys ambell un a gafodd gyfle i gamu ar y llwyfan!

**Gwasanaethau**

O fis Hydref**,** bydd oedfa'r bore am 10.30 yn dilyn y patrwm arferol ond byddwn yn arbrofi gyda phatrwm newydd ar gyfer oedfa'r hwyr dros 6 mis y Gaeaf hyd at fis Mawrth.
Nos Sul gyntaf pob mis – Oedfa arferol yn Salem am 6.00pm o dan ofal Evan.
Pob nos Sul arall - oedfa Zoom fer yn dilyn y patrwm a welwyd yn ystod cyfnod COVID.
15 Hydref **–** Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul.
Wrth edrych tua'r gaeaf, cofiwch fod croeso cynnes yn Salem bob amser.

**Gweithgareddau eraill**

**Clwb Brecwast** i rieni a phlant / babanod o dan oed meithrin.
Bore Mercher 4 ac 18 Hydref rhwng 9.45 a 11.15
**Bore Golud** - Cyfle i rai sy'n dioddef o dementia, a'u gofalwyr ac unrhyw un arall, daro i mewn i gwrdd am sgwrs a phaned.
Bore Llun 9 a 23 Hydref rhwng 10.30 a 12.00.
**Cylch Trafod Beiblaidd** – Bore Mercher 11 Hydref rhwng 11.00 a 12.00.
**Clwb Coffi** – bore Gwener 13 Hydref rhwng 11.00 a 12.00. Croeso i unrhyw un ymuno am goffi, sgwrs a chwmnïaeth.
**Clwb y Bobl Ifanc** – nos Wener 13 neu 20 Hydref. Bowlio 10 yng Nghanolfan y Red Dragon yn y Bae. Mae croeso i bawb o flwyddyn 7 i flwyddyn 13.
**Adran Salem** – nos Iau rhwng 6.00 a 7.00. 12 Hydref – Dawnsio Gwerin a 26 Hydref – Calan Gaeaf. Mae croeso i bawb.

## TABERNACL, YR AIS

Llongyfarchiadau i Ffion Baker am gwblhau'r her o seiclo o Lundain i Baris dros 4 diwrnod – taith a gyflwynodd er cof am ei thad. Rai wythnosau wedi i Ffion gyflawni ei thasg, bu farw Louvaine, mam Nicola a mamgu Rhiannon a Ffion. Cydymdeimlwn gyda'r teulu yn eu profedigaeth.

Llongyfarchiadau i Delyn a John Callow a ddathlodd eu prodas arian yn ddiweddar.

Dymunwn yn dda i Elinor Snowsill yn ei swydd newydd wrth iddi ymddeol wedi 14 mlynedd o chwarae rygbi cenedlaethol dros Gymru. Enillodd 76 cap a chwarae mewn pedair pencampwriaeth Cwpan y Byd. Mae wedi chwarae rhan bwysig wrth godi proffil rygbi i ferched.

Llawenhawn fel aelodau wrth i'n gweinidog, y Parchg Ddr Rosa Hunt, ddathlu ei blwyddyn gyntaf yn y Tabernacl. Diolchwn am ei dylanwad cadarnhaol ar yr eglwys ac ar y gymdogaeth leol.

Daeth aelodau'r Clwb Darllen at ei gilydd yn Poro, Llandaf. Y llyfr dan sylw y tro hyn oedd *Hallt* gan Meleri Wyn James.

Diolch i'r canlynol am eu gwasanaeth i'r oedfaon yn ystod y mis – y Parchg. Ddr Rosa Hunt, plant yr Ysgol Sul, Noa Evans a'r Parchg Rob Nicholls.

## EGLWYS DEWI SANT

**Ymarferion Côr**

Ailgychwynodd yr ymarferion côr nos Fawrth, 12fed Medi. Croeso i gantorion newydd.

**Coffi a Chlonc**

Cynhaliwyd y Coffi a Chlonc arferol fore Sadwrn , 16eg Medi a chafwyd cyfle i groesawu dysgwyr newydd. Cynhelir y bore coffi nesaf fore Sadwrn, 14eg Hydref.

**Te Prynhawn**

Cafwyd Te Prynhawn llwyddiannus a hwyliog brynhawn Sadwrn, 16eg Medi. Roedd yn dda gweld cynifer wedi dod ynghyd i fwynhau cyfeillgarwch gwresog a brechdanau a chacennau blasus. Diolch i Dilys Jones am gydlynu, i bawb a gyfrannodd fwyd ac a fu'n gweini wrth y byrddau a hefyd i bawb a ddaeth ynghyd gan wneud y prynhawn yn un mor bleserus.

**Yr Ysgol Sul**

Ail gychwynodd yr Ysgol Sul fore Sul, 17eg Medi. Fe'i cynhelir ar y Sul cyntaf a'r trydydd Sul o'r mis.

**Datganiad Organ**

Bydd y datganiad nesaf ddydd Gwener Hydref 13eg am 1.15 gan Carleton Etherington, Cyfarwyddwr Cerdd ac Organydd Abbaty Tewkesbury.

**Diolchgarwch am y Cynhaeaf.**

Cynhelir y gwasanaeth ddydd Sul, Hydref 8ed am 10.30 gyda Chinio'r Cynhaeaf i ddilyn.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon ac Ysgol Sul (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):**

**Hydref 2023:**

1af – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
8fed – Diolchgarwch yr Ysgol Sul
15fed – Parchedig Dafydd Andrew Jones
22ain – Aelodau Pentyrch
29ain – Parchedig Jeff Williams

*Bu farw ein cyn-weinidog, y Parchedig R Alun Evans, ar yr 20fed o Awst 2023.*
*Mae detholiad o'r teyrngedau a dalwyd ar ddydd ei angladd, y 4ydd o Fedi, yn y Capel a'r Amlosgfa, yn ymddangos mewn erthygl ar wahan yn y rhifyn hwn.*

***Te prynhawn***
***Eglwys Dewi Sant***



## EBENESER

**Cyfnod Sabothol**

O ddechrau mis Medi hyd ddiwedd Tachwedd mae Alun Tudur, ein gweinidog, yn cael ei ryddhau o'i holl ddyletswyddau fel gweinidog Ebeneser, ar wahân i angladdau. Canllaw Undeb yr Annibynwyr yw fod gweinidog yn cael ei ryddhau pob saith mlynedd. Bwriad Alun yw gwneud peth gwaith ymchwil Beiblaidd, hanesyddol a chymdeithasol, i ddau bwnc yn benodol, sef tyfu eglwysi yn 2023 a phlannu cynulleidfaoedd newydd. Bydd y cyfnod yn gyfle iddo ddarllen, myfyrio ac ysgrifennu. Edrychwn ymlaen a chael adroddiad ganddo ym mis Rhagfyr.

**Dymuniadau gorau**

Pob dymuniad da i Elin Harding, sydd wedi symud i weithio i Ysgol Brydeinig Dubai Jumeriah Park, lle bydd yn dysgu blwyddyn 6, am gyfnod o ddwy flynedd. Dechreuodd yn ei swydd newydd ar 18fed o Awst.

**Anrhydedd**



*Mathew Evans a Malcolm Thomas*

Clywsom am seremoni i anrhydeddu Malcolm Thomas a'r diweddar Keri Evans yn Ysgol Glantaf ddiwedd tymor yr haf i nodi eu cyfraniad i'r ysgol. Malcom oedd y prifathro cyntaf, ac fe ail enwyd ystafell arall ar ei ôl ef a'r diweddar Keri Evans, a fu'n athro chwaraeon brwdfrydig a gweithgar.

**Colled**

Tristwch o'r mwyaf i ni fel teulu Ebeneser oedd colli dwy aelod yn ystod mis Medi. Bu farw Mair Bennett yn ddisymwth yn 92 oed ar 20fed o Fedi. Pob cydymdeimlad i Petra ar golli ei mam. Coffa da amdani. Bu farw Hazell Doull ar 23 o Fedi ar ôl cyfnod hir o salwch. Pob cydymdeimlad i Iolo, Alun ac Ioan yn eu colled a hiraeth. Byddwn yn gweld ei cholli.

**Llan Llanast**

Gweithgaredd yw hwn ar Sul cyntaf y mis i'n plant ble mae cyfle i gael stori Beiblaidd, gemau a thamed o fwyd ar y diwedd. Ond ar y 1af o Hydref cafwyd Llan Lanast i bawb. Mae hyn wedi digwydd o'r blaen ac wedi bod yn llwyddiant heb ei ail. Mae'n gyfle i gymysgu a chymdeithasu gan ddod i adnabod ein gilydd yn ychydig gwell.

## EGLWYS Y CRWYS

Dymunwn yn dda i Mrs Susan Owen a dreuliodd gyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Adferiad llwyr a buan iddi.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs. Rhian James yn ei phrofedigaeth o golli ei mam, Mrs Eirlys Griffiths, oedd yn byw yn ardal Wrecsam cyn symud i Gaerdydd ddwy flynedd yn ôl.

Llongyfarchiadau i'r Parchg Glyn Tudwal Jones ar ddathlu 50 mlynedd yn y Weinidogaeth. Diolchwn yn y Crwys i ni brofi ei wasanaeth diflino yn yr Eglwys.

Cafwyd noson hwyliog a llwyddiannus iawn gan y Gymdeithas gyda Swper a Gemau Bwrdd o dan ofal Mathew Bill. Mae'r aelodau yn edrych ymlaen am Bererindod i'r hen Sir Frycheiniog ar Hydref 14eg.

Mae'r Coffi ar Gamera yn parhau i gael ei gynnal ar Zoom bob bore dydd Mawrth.

Trefn oedfaon mis Tachwedd; yr oedfaon am 10.30 a.m. a 6.00 p.m.

Tachwed 5ed – Parch. Glyn Tudwal Jones gyda gweinyddu'r Cymun yn yr oedfa foreol

Tachwedd 12fed – Parch. Denzil John

Tachwedd 19eg- Bore: Parch. Hywel Richards; Hwyr: Parch. Catrin Roberts

Tachwedd 26ain – Mr William Tiplady

## BETHEL, PENARTH

Wrth lunio'r nodyn hwn (Medi 27ain) mae ein meddyliau gyda'n chwaer Val Scott yn ei salwch presennol.

Braf oedd gweld Mary Simmonds yn hercian i'r oedfa yn ddewr, gan edmygu ei ffyddlondeb, yn dilyn llawdriniaeth ar ei phenglin yn Lithwania.

Clywsom mewn cyfarfod o Gyngor Bethel am gynlluniau tymhorol, sef, cynnal ein Bore Coffi elusennol blynyddol ym mis Tachwedd ac am y bwriad i gystadlu yn yr her Creu Coeden Nadolig ym Mhenarth. At hyn bydd y gyfres o giniawau er lles Cymorth Cristnogol yn cychwyn ar 29 Medi gyda Bethel yn gyfrifol ar 13 Hydref.

Eleni mewn trefniant newydd, byddwn gyda'n cyfeillion yn y Barri mewn oedfa o Ddiolchgarwch. Bydd yr amser yn rhyddhau ein gweinidog Kevin i gymryd rhan yn y ras hanner marathon yn y bore; bydd ei ymroddiad er lles Cymorth Cristnogol.

Ar y trydydd o Fedi yn oedfa gyntaf ein 'blwyddyn' Newydd, seiliodd y gweinidog ei fyfyrdod ar yr hanes a geir ym Marc 1, 16 – 20 am Iesu'n galw pedwar pysgotwr, gan ein herio i ymateb o'r newydd i apêl Iesu, 'Dewch ar fy ôl i'.

Yn anaml y bydd pregethwyr yn trafod cynnwys Llyfr y Diarhebion, ond dyna gawsom gan Kevin ar y 10fed o Fedi. Geiriau o benodau 3 a 4 oedd dan sylw mewn myfyrdod o berthnasedd gorchmynion Solomon i ystyriaethau cyfoes parthed arferion iechyd buddiol.

Pwysodd Neville Evans ar y 17eg ar y darlleniadau yn y Llithiadur ar gyfer y dydd hwnnw, sef, Exodus 14, 19-31; Salm 114; Rhufeiniaid 14, 1-12; Mathew 18, 21 – 35. Galwodd ein sylw at berthnasedd y themâu i'r sefyllfa gyfoes er bod y deunydd yn hen.

Eto ar y 24ain, cyngor at ein dydd o hen ddoethineb oedd neges Kevin wrth iddo ymhelaethu ar neges gall Salm 46, 'Ymlonyddwch a deallwch mai myfi sydd Dduw'. Mae angen i bawb ymddisgyblu a dysgu gwerth ymdawelu.

## BETHEL, RHIWBEINA

Ar ôl seibiant ym mis Awst, dechreuodd y tymor newydd ar 3 Medi pan gafwyd gwasanaeth cymun yng ngofal ein gweinidog, y Parch. Evan Morgan. Yn ystod y mis cawsom gyfle i groesawu i'r pulpud Helen Jones, y Parch. Robin Samuel, a Gwyndaf Roberts. Ar Fedi 24ain, roedd y gwasanaeth yng ngofal yr aelodau. Diolch i Mrs Mair Davies am gynllunio'r gwasanaeth oedd yn seiliedig ar y thema 'Diolchgarwch'.

Bydd Bore Coffi yn y capel ar 21 Tachwedd i godi arian tuag at yr Ambiwlans Awyr.

Danfonwn ein dymuniadau gorau at y rhai sy'n ei chael yn anodd i ddod i'r capel oherwydd anhwylder. Hefyd rydym yn danfon ein cofion at Llinos Howells sydd ar hyn o bryd yn gweithio'n galed yn dysgu'r plant yn Ysgol Gymraeg y Gaiman.

Mae croeso i bawb i ymuno yn ein gwasanaethau sy'n cychwyn am 10.15 bob bore Sul.

# Ysgol Glan Morfa

**Lansiad Cenedlaethol Micro:Bit /Cewri Codio**
Ar ddydd Mercher, cawsom ymwelwyr cyffrous iawn wrth i dîm Addysg y BBC ddod lawr yr holl ffordd o Fanceinion i lansio'r ymgyrch micro:bit /Cewri Codio gyda ni yn Ysgol Glan Morfa. Cafodd ein hysgol ni ei dewis i fod yr ysgol gyntaf yng Nghymru i lansio'r ymgyrch ac i dderbyn y micro:bit. Fe ddaeth y gyflwynydd Alex Humphreys a'r teclynnau i ni a chafwyd sesiwn holi ac ateb gyda hi am ei mwynhad o gemau a chodio cyfrifadureg. Daeth Dan hefyd o gwmni Technocamps draw i roi dosbarth meistr i'r plant ar y teclynnau arbennig hyn.

Braint ac anrhydedd oedd hi i gynnal y digwyddiad hwn a derbyn 30 micro:bit. Edrychwn ymlaen i weld pa fath o bethau y gall ein disgyblion greu dros yr wythnosau / misoedd nesaf!

**Senedd Ni**
Llongyfarchiadau mawr i Macsen a Branwen o flwyddyn 6 ar eu dewis i fod yn gynrychiolwyr yr ysgol ar Senedd Ysgolion Cynradd Cymraeg Caerdydd a elwir yn "Senedd Ni". Ar ddydd Iau, Medi 14eg fe gafwyd cyfarfod cyntaf y Senedd gyda dros 30 o ddisgyblion ysgolion Cymraeg y ddinas yn bresennol. Edrychwn ymlaen i weld pa benderfyniadau mawr y mae nhw am eu gwneud eleni!

**Llwyfan Perfformio Newydd!**
Diolch o galon i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am brynu llwyfan hyfryd i blant yr ysgol. Mi fydd y llwyfan hwn yn hybu creadigrwydd a sgiliau perfformio ein disgyblion. Diolch yn fawr iddynt am eu caredigrwydd.




*Alex Humphreys a Meilir Tomos yn lansio Cewri Codio yn yr ysgol*

# Ysgol Plasmawr

**Swyddogion y Chweched**
Pob dymuniad da i Brif Swyddogion Ysgol Plasmawr



(Ffred Hayes a Nia Fajeyisan) wrth iddynt ddechrau ar eu cyfrifoldebau. Byddant yn cael eu cefnogi gan eu dirprwyon Leisa Jones, Seren Morris, Jack Young ac Elen Edwards. Yn ogystal, hyfryd yw cael criw gwych o dri deg pedwar Uwch Swyddog yn y 6ed dosbarth a fydd yn arwain ar feysydd yn cynnwys Cymreictod, mentora academaidd, iechyd a lles meddyliol a gwaith elusennol. Gwych oedd eu gweld yn cyfrannu yn gynnar yn y tymor i elusen y 6ed (Maggies) yn ystod taith gerdded noddedig i Sain Ffagan. Fe fydd ein swyddogion yn parhau i arwain ein grwpiau cyfranogiad megis Balch, Newid Ffem, Digon a Thafod. Mae blwyddyn brysur o'u blaenau!

**Croeso Blwyddyn 7!**
Roedd hi'n bleser medru mynd â dros 200 o blant blwyddyn 7 i Langrannog am ddwy noson eto eleni. Bwriad y daith oedd rhoi'r cyfle i'r disgyblion gymysgu a magu perthnasoedd newydd gyda disgyblion eraill ac athrawon. Fe gawson nhw lwyth o hwyl ar yr amrywiol weithgareddau - o'r sgïo i'r gwibgartio, o'r ceirt modur i neidio o'r tŵr! Buon yn ffodus iawn gyda'r tywydd gyda'r haul yn gwenu'n braf arnom yn y Gorllewin. Mae'r golygfeydd godidog o'r ffreutur newydd yn rhyfeddol! Rhaid diolch i griw arbennig o Swogs a ddaeth gyda ni ar y daith. Roedd gweld sut oedden nhw'n ymgymryd â'r rôl o ofalu a meithrin perthynas gyda'r disgyblion yn hyfryd. A bellach, rydyn ni yn ôl yn yr ysgol a'r flwyddyn yn bwrw ati i ymgynefino a mwynhau bywyd yn yr ysgol uwchradd.


**Tiwtor Mathemateg graddedig, profiadol a llwyddiannus iawn.**

Llongyfarchiadau llon i'm myfyrwyr ar eu llwyddiant ardderchog eto eleni.
Mae ychydig fylchau ar ôl i gychwyn **Mis Hydref** eleni i fyfyrwyr **Blwyddyn 12, Blwyddyn 10** neu **Flwyddyn 9/8.**

Mae'r hyfforddiant yn cael ei gynnal trwy gyfrwng ZOOM ar hyn o bryd.

Am fanylion pellach cysylltwch â Gwilym Wyn Roberts **07 968 463 737** neu **serenagwill@btinternet.com**

# Bwytai Merch y Ddinas

## *Diolchgarwch*



**Lowri Haf Cooke**

Dwn i ddim amdanoch chi ond gwibiodd mis Medi hebio i mi fel corwynt o wallgofrwydd. Ges i ddêts hynod braf yn yr heulwen crasboeth, a sawl taith gwaith ar hyd yr M4. Heb sôn am ddod â dwy gyfrol i ben – un sydd ar werth yn eich siop lyfrau lleol nawr! *Gwledd* (Y Lolfa) yw honno – sy'n dathlu arwyr ac arwresau bwyd a diod Cymru. Yn eu plith mae Ieu a Jez o gwmni pizza Ffwrnes, marchnad ganolog Caerdydd! Gwyliwch y gofod am lansiad swyddogol. I ddathlu'r holl brysurdeb, es i Gaucho am ginio arbennig – bwyty a agorodd ar ddechrau mis Awst, sy'n cynnig gwibdaith i baith yr Ariannin.



Cwmni cadwyn sydd dan sylw, a sefydlwyd yn Amsterdam yn wreiddiol cyn agor yn West End Llundain yn 1994. Efallai i chi sylwi ar y glaswellt pampas sydd wedi ymddangos dafliad carreg o gofgolofn John Batchelor yn yr Aes. Dyna ble mae Gaucho, a sôn am fersiwn 'glam' o'r gorllewin gwyllt! Fel y gwyddoch chi, dwi ddim yn or-hoff o hyrwyddo cwmnïau cadwyn, gyda chymaint o fwytai annibynnol ar eu gliniau ar hyn o bryd. Ond mae canol y ddinas yn frith ohonynt, gan mai nhw sy'n medru fforddio talu rhenti uchel y CBD. Ro'n i'n chwilfrydig i weld sut fyddai cwmni Gaucho yn cymharu â thai stêc eraill y ddinas, gan gynnwys Asador 44, Maison De Boeuf a Pasture.

Yn syml, ges i siom ar yr ochr orau, ond mae angen rhoi brwsh gwallt trwy'r glaswellt pampas tu allan! Roedd mynd i'r lle fodd bynnag fel glanio ar blaned arall... mae'r decor yn hynod foethus, gan gynnwys tirlun anferthol o'r Andes sy'n hoelio'r sylw, a'ch denu chi fewn. Mae'r bar yn f'atgoffa o fwytai'r Ivy gerllaw, ac mae aelodau'r staff yn arbennig o dda. Ges i groeso a choflaid gan y gweinydd Juan, oedd yn arfer gweini ym mar Curado gerllaw. A ges i andros o sgwrs dda gyda Valerie o Ffrainc, sy'n byw a gweithio ym mwytai'r ddinas ers 19 mlynedd. Hi wnaeth ofalu amdana i – mae hi wrth ei bodd gyda dinas Caerdydd, ac yn byw ers tro byd ger Parc y Rhath. Dechreuodd hi ym mwyty cyntaf Canolfan y Mileniwm, cyn symud i Jamie's Italian, yna Pasture a'r Potted Pig. Denwyd staff o'r safon uchaf i sefydlu'r bwyty hwn – ddim yn aml dwi'n gweld hynny mewn cwmni cadwyn, ond mae i'w ganmol, yn bendant.

A minne'n dathlu, nes i archebu golwyth llygad yr asen, neu ribeye – ond mae'r dewis o 'stêcs cynaladwy' o'r Ariannin yn eang iawn. Yn gynwysedig yn y pris anrhydeddus (£36 am un 'bach', er digon mawr!) y mae saws eich dewis a sglodion hyfryd o grenshlyd. Gofynnais i Valerie argymell glasied o win coch rhesymol mewn pris, gan nad oes 'gwin y tŷ' ar gynnig, a dychwelodd hi i'r bwrdd â glasied o Malbec Melodias o Bodega Trapiche yn rhanbarth Mendoza am £10.25. Os oes chwant prynu potel o'r Wladfa, gyda llaw, mae'r prisiau'n amrywio o £41 i £155! Dwi'n falch iawn i ddweud i mi fwynhau'r bwyd a'r gwin yn fawr– a ges i wibdaith pur annisgwyl nôl mewn amser...

Tra'n archebu o'r fwydlen clywais fy nghymdogion yn ceisio cofio pa siop yn union lenwodd y gofod cyn i Gaucho agor ei drysau... Roedd yr ateb yn drawiadol, er efallai nid ar yr arwyneb. Siop ddilad All Saints oedd yno ddwetha, ac ro'n i'n fud am chydig bach. Union ddegawd yn ôl prynais ffrog sidan hardd yno, ar gyfer digwyddiad ro'n i am ei llywio yn y Llyfrgell Genedlaethol. Gadewais y ddinas, gan fwynhau'r daith i fyny i Aber, ond ges i ddamwain car arswydus ar gyrion Llambed. Dwi'n cofio glanio mewn cae anial ym mhentre bach Silian, a neb yn y byd yn gwybod fy mod i yno. Gwelais waed yn llifo o arteri fy ngwddf yn adlewyrchiad y drych uwchben, ac fe sgrechiais nerth fy mhen. Yn sydyn rhedodd dyn mewn crys Llewod coch lawr y bryn a chymeryd un cip arna i. Fe waeddodd i'w bartner i ffonio am ambiwlans, gan ddweud iddo weld fy nghar yn sgrialu oddi ar y ffordd. Diolch i'r dyn hyfryd hwnnw – oedd ar ei wyliau yn yr ardal, ac yn wirfoddolwr gydag ambiwlans Sant Ioan yn Rhuddlan – daeth dwsinau o bobol i'r cae ymhen dim. Dau baramedig, ac aelodau'r frigad dân, gyda phawb yn medru'r Gymraeg. Ro'n i wir yn fy nagrau, o ddiolchgarwch, am gymorth pawb. Ymhen deg munud arall glaniodd ambiwlans awyr, a'm hedfanodd i Ysbyty Treforys yn Abertawe. Derbyniais lawdriniaeth yn syth gan griw o feddygon gwych, cyn derbyn gofal arbennig gan staff y ward blastics. Ac

ymhen rhai dyddiau, ces fy nanfon adre i ddod nôl at fy nghoed yng Nghaerdydd.

Sgwennais y cyfan mewn cryn fanylder ddegawd yn ôl, er mwyn cofnodi popeth ar fy mlog Merch y Ddinas. Dwi mor falch i mi wneud - roedd y weithred o sgrifennu o gymorth mawr – a chefais aros gyda'm rhieni, oedd yn arbennig iawn. Diolchgarwch yw teitl y darn, a wir i chi, dyna dwi'n deimlo i'r byw hyd heddiw, am fod mor lwcus i fod yma, yn fyw ac yn iach.

Ond beth am y cysylltiad gyda siop ddillad ddrudfawr All Saints? Wel, er mwyn mynd i'r afael â'r niwed ar y pryd, torrwyd y ffrog waedlyd gan feddygon yr adran frys. Wnes i'm digio o gwbl, ond wedi i mi wella rhywfaint o'r clwyfau, galwais i mewn i'r siop unwaith eto i holi oedd y ffrog dal ar werth. Yn anffodus, roedd y steil wedi hen werthu allan, ond oedodd y ferch i holi tybed paham mod i'n gofyn am y ffrog honno'n benodol. Pan eglurais mod i wedi cael damwain, fe ffoniodd hi'r pencadlys ar ei hunion, ac ymhen rhai dyddiau derbyniais yn union yr un ffrog sidan. Roedd toriad y llewys yn berffaith addas ar gyfer creithiau top fy mraich.

Wrth eistedd yno yn sawru fy ngwin, cofiais bopeth a ddigwyddodd ar y 29ain o Hydref 2013. Cofiais bob un wyneb a phob un gymwynas, a chofiais gael fy nhrin gyda pharch. Cofiais y gofal a dderbyniais gan bawb ar hyd y daith. Cyfoethogodd hynny fy nathliad ym mwyty Gaucho ar ddiwedd mis Medi gwych a gwallgo, mis llawn cynnwrf a chariad a gwaith. Byddaf yn siwr o ddychwelyd i'r bwyty – mae na ddêl da dros ginio rhwng Llun-Iau sef 2 gwrs am £25 – a tro nesa, bydda i'n siwr o wisgo'r ffrog sidan All Saints.


Gaucho, 10 Yr Aes, Caerdydd CF10 2EL; 02920 596979

I gyfrannu i Ambiwlans Awyr Cymru ewch i www.ambiwlansawyrcymru.com

*Gwledd* (Y Lolfa) a *Bwytai Cymru* (Gomer) gan Lowri Haf Cooke ar werth yn y siopau llyfrau.

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

**Noson yng nghwmni Tim Hartley**




O dan arweiniad yr Is-Gadeirydd, Carol O' Donnell, cafodd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina ddechrau campus i'r tymor newydd yng nghwmni'r siaradwr gwadd, y newyddiadurwr a'r awdur, Tim Hartley. Ac yntau wedi ei fagu yn y Barri, tref reit Seisnig bryd hynny, fe fynnodd rhieni Tim, er eu bod yn ddi-Gymraeg eu hunain, ei fod o'r cychwyn yn mynd i dderbyn ei addysg trwy gyfrwg y Gymraeg. I ddechrau golygai hynny ei fod yn mynychu'r ysgol feithrin Gymraeg leol oedd yn cael ei chynnal yng nghanol stoc carpedi siop Dan Evans!

Wedi cyfnod yn Ysgol Rhydfelen, a olygai taith fws ddyddiol o 20 milltir, a chwrs gradd yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth, bu Tim yn gweithio i'r BBC am 17 mlynedd, fel newyddiadurwr a golygydd yng Nghymru a Llundain. Yna aeth yn was sifil, gan fynd yn Bennaeth Newyddion yn y Cynulliad ym Mae Caerdydd, lle bu'n gwasanaethu yn bennaf fel lladmerydd i'r Prif Weinidog, Rhodri Morgan. Symudodd oddi yno i fod yn Gyfarwyddwr Materion Corfforaethol S4C, mewn cyfnod diddorol pryd yr oedd gofyn i'r Sianel frwydro i sicrhau ei hannibyniaeth.

Bu Tim yn sôn fwyaf am ei ddiddordeb angerddol mewn pêl-droed, a'i frwdfrydedd fel cefnogwr Caerdydd a Chymru yn enwedig. Clywsom am ei ymweliadau, gan amlaf yng nghwmni ei fab, wrth ddilyn y bêl gron i nifer fawr o wledydd tramor, e.e Brasil, Gogledd Korea, Uzbekistan, Gwlad yr Iorddonen, Quatar a.y.b ac am y profiadau difyr dros ben a gafodd yno. Mae llawer o'r hyn welodd Tim wedi'i gofnodi yn y nifer o erthyglau a llyfrau a sgrifennodd, sydd yn gyfrwng i serio'i holl brofiadau hynny ar y cof.

Daeth Tim i sylweddoli, wrth fod yn dyst i ba mor ddifreintiedig oedd llawer o frodorion rhai o'r gwledydd y bu'n ymweld â nhw, y byddai'r teithiau hynny yn llawer mwy buddiol a phleserus petai ef a'i gyfeillion yn gallu cynnig rhywfaint o gymorth iddyn nhw. Felly aethpwyd ati i drefnu cludo defnyddiau pwrpasol dramor gyda nhw ar gyfer y brodorion tlotaf, e.e. sgidiau ymarfer corff, offer chwaraeon a.y.b.

Yn yr un modd, ymfalchïai yn y ffaith fod pêl-droed hefyd wedi bod yn gyfrwng normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd i dydd, gyda chynnydd amlwg i'w weld yn y gefnogaeth i'r iaith a welir yn y byd pêl-droed yng Nghymru.

## Côr Cymru 2024 - Ymgeisiwch nawr.

Bydd cyfres arall o'r Gystadleuaeth **Côr Cymru** yn dychwelyd yn y Gwanwyn.
**Dyddiad cau: 13 Hydref 2023.**

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

1. Yn ddiweddar, mae nifer wedi derbyn llythyron oddi wrth eu banc yn rhybuddio y bydd y banc yn cau eu cyfrifon banc ar fyr rybudd oni bai eu bod yn darparu gwybodaeth sy'n profi pwy ydynt (e.e. copi o'i trwydded gyrru, pasbort, ayyb).

   Mae'r llythyron yn aml yn ddilys ac fel arfer yn gofyn am i wybodaeth bersonol gael ei ddiweddaru naill ai dros y ffôn neu yn y gangen agosaf. Mor belled, mae hyn wedi effeithio ar unigolion hunangyflogedig a sefydliadau gwirfoddol (e.e. corau, clybiau chwaraeon) sydd angen cyfrif banc i gasglu eu ffioedd aelodaeth.

   Peidiwch â diystyru'r cais am wybodaeth, ond os nad ydych chi'n siwr am ddilysrwydd y cais, ewch i ymweld â'ch cangen banc leol cyn datgelu unrhyw wybodaeth dros y ffôn.

2. Os ydych chi wedi ennill incwm heb ei drethu rhwng 6 Ebrill 2022 a 5 Ebrill 2023 a bod angen i chi gwblhau ffurflen dreth hunanasesiad am y tro cyntaf, 5 Hydref 2023 yw'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru gyda'r Swyddfa Dreth. Ceir y manylion yn llawn ar wefan Gov.uk ac o brofiad, os ydych yn hwyr yn cofrestru, mae'r Swyddfa Dreth fel arfer yn ystyriol iawn o'r sefyllfa.

3. Mae'r Post Brenhinol wedi cyhoeddi ail gynnydd mewn pris stampiau eleni. O 2 Hydref 2023, bydd cost stampiau dosbarth cyntaf yn cynyddu o £1.10 i £1.25 (bydd stampiau ail ddosbarth yn parhau ar £0.75), gyda chynnydd hefyd yng nghostau postio amlenni mwy o faint.

***Cwestiynau Huw ac Aled***: Mae gen i dri o wyrion ifanc (5-10 oed) ac rwy'n awyddus i roi arian iddynt, fodd bynnag, ar yr un pryd, rwyf am eu hannog i ddysgu am arian ac i feithrin disgyblaeth ariannol. Oes modd i mi agor cyfrif pensiwn ar gyfer pob ŵyr/wyres?

Yn gyntaf, bydd angen i rieni'r plant agor SIPP Iau (*'Junior SIPP'*), ac unwaith mae'r cyfrif wedi'i agor, gallwch dalu hyd at £2,880 i mewn i SIPP pob ŵyr neu wyres ym mhob blwyddyn dreth. Bydd rhyddhad treth drwy'r Llywodraeth o £720 yn cael ei ychwanegu at y SIPP, gan roi cyfanswm o £3,600 wedi'i fuddsoddi ym mhob blwyddyn dreth. Gall y trothwy blynyddol gynyddu yn y dyfodol pan fydd yr wyrion yn dechrau gweithio a chofiwch fod y rhyddhad treth yn seiliedig ar statws yr wyrion, nid eich statws treth chi. Felly, os ydych yn dal i gynilo i'ch pensiwn eich hun, dyw eich lwfans pensiwn blynyddol chi ddim yn cael ei effeithio gan eich taliadau i SIPP Iau yr wyrion.

Cofiwch, o dan y canllawiau presennol, ni fydd eich wyrion yn gallu cael gafael ar yr arian yn y SIPP Iau tan eu bod o leiaf 55 oed (57+ o 2028).

Os ydych yn credu fod hyn yn amser rhy hir cyn iddynt gael mynediad at yr arian, efallai dylech ystyried dewisiadau buddsoddi eraill. Rydym yn argymell eich bod yn derbyn cyngor ariannol gan gynghorydd ariannol cymwys cyn gwneud unrhyw benderfyniadau buddsoddi.

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni trwy: Huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

## Cyhoeddi Cyfrol fywiog a lliwgar am fyd y Ddawns Werin yng Nghymru

Cafodd *Llwybrau'r Ddawns* ei lansio yn y Tŷ Gwerin ar faes Eisteddfodd Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd eleni. Ffrwyth llafur dwy o garedigion y grefft o ddawnsio gwerin yw'r gyfrol sef Eiry Palfrey a'r diweddar Alice E. Williams. Alice gymerodd y cam cyntaf, pan gyflwynodd ddogfen amrwd i Eiry a sylweddolodd bod ynddo drysor o wybodaeth ac ymchwil am y ddawns y dylid ei rhannu gyda'r genedl.



*Dathlu Gŵyl Ifan*

Diddymwyd dawnsio gwerin Cymru i bob pwrpas gan y Methodistiaid yn y ddeunawfed ganrif, ond fe'i adferwyd yn y 1930au gan Lois Blake, Saesnes a ymsefydlodd yn ardal Corwen. Roedd Alice E. Williams yn un o'r hoelion wyth fu'n helpu Lois Blake i adfer y ddawns trwy Gymru.

Yn y gyfrol ceir ugain o deithiau o amgylch Cymru sy'n archwilio hanes a thraddodiadau'r ddawns werin ynghyd â phytiau am gerddoriaeth a chwedlau.

Mae Eiry Palfrey, sydd bellach yn byw yn Barri, wedi dawnsio gwerin ers ei phlentyndod, ac wedi bod yn Olygydd, Cadeirydd, a bellach yn Llywydd Cymdeithas Ddawns Werin Cymru. Mae'n aelod selog o dîm Dawnswyr Gwerin Pen-y-fai, ger Penybont ar Ogwr, ac er bod y crydcymalau yn ei hatal rhag camu'n rhy eofn, mae'n dal i drio!

## Rhif: 236





**Ar Draws**

1. Brith neu croyw mae'n fwytadwy (4)
8. 'Mi fum ----- ----- oriau hir
   Ond daeth llawenydd gyda'r nos' (IDH) (4,6)
9. 'Mae'r llaid cyntefig yn ein deunydd tlawd
   Llysnafedd ----- yn ein mêr a'n gwaed' (DGJ)(8)
10. Ar yn ail mae'r huawdl un yn mynd yn wyllt (4)
12. Cred yn rhywbeth i'w ddanfon (6)
14. 'O wybod mae ------ fu
    Dy hela di hyd waun a rhos' (IDH) (6)
15. Cefnu ar y diwedd a gwneud adduned (6)
17. Dei a Daf yn broblem i William Morgan efallai (6)
18. 'Tu ôl i'r ----- mae'r blawd
    Tu ôl i'r blawd mae'r felin' (WNW) (4)
19. 'Dy iachawdwriaeth yw fy ngrym
    A'm ----- i, a'm cân' (WW) (8)
21. Ar ôl oes Lyn yn torri tir newydd (2,8)
22. Swnio'n debyg i doli druan (4)

**I Lawr**

2. Plannu eto yn yr hen gynefin (10)
3. Proffwyd ar ddechrau amser mor ofidus 'stalwm (4)
4. Codiad llawr i'r actorion (6)
5. Mab i'r offeiriad ddim yn ymbil (6)
6. 'Tydi yn dy nefoedd aeddfedodd y grawn
   Tydi roddodd ddyddiau'r ---- yn llawn'(ER) (8)
7. Bardd a fu ar yn ail yn fregus (4)
11. 'Gwynt yr hydref ruai neithiwr
    Crynai'r ----- ----- -----' (WCW) (4, 1'1,4)
13. Mae dwrdio Ruth ddigalon yn anorfod (8)
16. Richard bach yn hapus ond crac (6)
17. Gwraig y tro pedol yn nesau (6)
18. Aderyn o wydr efallai (4)
20. Mewn hwyl ofnadwy yn crio (4)



**Enillydd Croesair Rhif 234**
**Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch**

**Atebion Croesair Rhif 234**

**Ar Draws:** 1. Operatig 5. Bont 9. Bitw 10. Duo 11. Aberu 12. Golud 13. Bu farw yn ein lle 18. Awr 19. Corn 20. Clawr 21. Gwern 22. Dysg 23. Arferion
**I Lawr:** 2. Parablu 3. Roberta 4. Im grwydro tir 6. Oedolyn 7. Troedle 8. Gwagle 13. Blanced 14. Farnais 15. Record 16. Iachawyr 17. Llafurio

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Tachwedd 2023
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

---

# Grŵp Cymdogion a Ffrindiau Cymraeg

Ydych chi'n edrych am gyfle i gael sgwrs yn y Gymraeg o adref? Am fod yn rhan o grŵp cyfeillgar a difyr heb orfod teithio'n bell?

Dyma gyfle i ddysgwyr a siaradwyr rhugl y Gymraeg siarad gyda'i gilydd. Mae'r sesiynau yn rhad am ddim pob dydd Mawrth am 2pm ar-lein am awr.

Dywed un o'r sawl sy'n cymryd rhan:
*"'Rwyf wedi dysgu geiriau newydd gan gyfranogwyr eraill ac rwyf wedi mwynhau'r cyfle i gwrdd ar-lein gyda phobl sy'n byw ymhellach i ffwrdd yn ogystal â rhai cyfagos. Mae'n ffordd wych o annog defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd gyfeillgar a di-fygythiol. Mae hefyd yn llawer o hwyl."*



Ni'n trafod nifer o bynciau gwahanol ac mae pawb yn cael cyfle i siarad yn ei tro.

Am wybodaeth bellach neu ymuno a sesiwn e-bostiwch: sarah.duncan-jones@thefancharity.org neu ffoniwch 07880630553

Beth am rhoi gynnig arni – mae croeso cynnes i bawb!

# Y DIGWYDDIADUR

## Hydref

**Mawrth, 10 Hydref**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Marc Edwards am waith Oasis yng Nghaerdydd, yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (07761-358755; eluned@press0.plus.com; ).

**Iau, 12 Hydref**
Cylch Cinio Merched Caerdydd. Yng Nghlwb Golff Llanisien, CF14 9UD, am 7.30pm. Siaradwraig: Siân Thomas (*Pnawn Da*). Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Cadeirydd, Elin Tudur (etudur@aol.com; 07768-095678).

**Llun, 16 Hydref**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Noson yng nghwmni Arwel Ellis Owen. Yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653). Croeso i aelodau hen a newydd.

**Mawrth, 17 Hydref**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Noson yng nghwmni'r Canon Aled Edwards, Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, am 7.30pm yn festri'r capel (CF24 4ER). Croeso.

**Iau, 19 Hydref**
Menter Caerdydd. Taith dywys i'r Senedd ym Mae Caerdydd rhwng 10.30 a 12.30 o'r gloch. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Gwener, 20 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Eurig Davies ar y testun 'Peter Williams yr Esboniwr (1723–96) – arwr cenedlaethol neu heretic ystyfnig?' Trwy gyfrwng Zoom am 7.15pm. Croeso cynnes i bawb. I ymaelodi (£10 am y flwyddyn) ac i dderbyn y ddolen Zoom, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Sadwrn/Sul 21 a 22 Hydref**
Urdd Gobaith Cymru. Cynhadledd Chwaraeon #Fel Merch. Yng Ngwersyll yr Urdd, Bae Caerdydd, Cynhadledd Chwaraeon Benwyaidd Mwyaf Cymru. Gweithdai, sgyrsiau a chyfle i holi y goreuon yn eu meysydd. Manylion pellach ar wefan yr Urdd neu drwy gysylltu â FelMerch@urdd.org

**Llun, 23 Hydref**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan Dr Haydn E. Edwards ar y testun 'Griffith Davies FRS: Arloeswr a Chymwynaswr'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â rachel@mentercaerdydd.cymru

**Iau, 26 Hydref**
Cylch Cadwgan. Sgwrs gan yr Athro Prys Morgan ar y testun 'Atgofion o Bethlehem a Salem Gwaelod-y-garth', yng nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth, am 7.30pm. Fe'i trefnir gan eglwys Bethlehem, Gwaelod-y-garth. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Ysgrifennydd Cylch Cadwgan, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Gwener, 27 Hydref**
Sioe Ffasiwn yr Ŵyl Cerdd Dant, yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbina, am 7.00pm. Tocynnau: £15. Fe'i noddir gan 'Calon', Rhiwbina.

**Gwener, 27 Hydref**
Clwb Canna. Mei Gwynedd a Band Tŷ Potas a Lo-Fi Jones (enillydd Brwydr y Bandiau Gwerin 2023), yn y Clwb Rhyddfrydol, Treganna, am 8.00pm. Tocynnau: £12 ymlaen llaw o siop Caban, Treganna, neu drwy Ticketsource, neu £14 wrth y drws.

**Mawrth, 31 Hydref**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Sgwrs gan Arwel Ellis Owen am Ogledd Iwerddon, am 7.30pm yn festri'r capel (CF24 4ER). Croeso cynnes i bawb.

## Tachwedd

**Mercher, 1 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Sgwrs gan Mati Roberts am 'Gwmni Matico', yn Ysgoldy Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur, am 7.30pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am fanylion pellach, cysylltwch â Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545).

**Llun, 6 Tachwedd**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Yng Ngwesty'r 'New House', Heol y Ddraenen, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA, am 7.00 ar gyfer 7.30pm. Pris: £28 yr un. Siaradwr gwadd: Emyr Afan (Prif Weithredwr Afanti). Croeso cynnes i bawb, yn arbennig i gyfeillion newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Paul Morgan, ar 07761-696286 neu cylch.cinio@gmail.com.

**Mercher–Sadwrn, 8–11 Tachwedd**
Canolfan Mileniwm Cymru a Frân Wen yn cyflwyno'r sioe gerdd 'Branwen: Dadeni', yn Theatr Donald Gordon, Canolfan Mileniwm Cymru am 7.30pm. Manylion pellach: https://www.wmc.org.uk/cy/digwyddiadur/2023/branwen-dadeni

**Iau, 9 Tachwedd**
Menter Caerdydd. Taith dywys i'r Amgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays rhwng 10.30 a 12.30 o'r gloch, gan gynnwys ymweliad ag arddangosfa Artes Mundi 10. I gofrestru, cysylltwch â rachel@mentercaerdydd.cymru

**Gwener, 10 Tachwedd**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Catrin Stevens ar y testun '"Ewyllys Unedig Merched yn erbyn Rhyfel": Apêl Merched Cymru at Ferched America 1923–24'. Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Y tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £10; y pris mynediad i gyfarfod unigol yw £3 (ond yn rhad ac am ddim i aelodau). I dderbyn gwybodaeth ynghylch sut i dalu'r tâl aelodaeth neu'r pris mynediad i gyfarfod unigol, a thrwy hynny dderbyn y ddolen Zoom, anfonwch at cymrodorioncaerdydd@gmail.com. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 11 Tachwedd**
Gŵyl Cerdd Dant Caerdydd, yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro. Mae'r rhagbrofion yn dechrau am 8.00am, ac yna drwy'r dydd! Mynediad: £10 (oedolion); £5 (plant).

**Mawrth, 14 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Maggie Smales ar y testun '"Cartref newydd, bywyd newydd": sut aeth opera sebon â fi i Affganistan', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Mawrth, 14 Tachwedd**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. 'S4C mewn Ecosystem Digidol.' Sgwrs gan Siân Doyle, Prif Weithredwr S4C, am 7.30pm yn festri'r capel (CF24 4ER). Croeso cynnes i bawb.

**Anfonwch fanylion ar gyfer Y Digwyddiadur at Yr Athro E. Wyn James**
**Manylion tud.2**

# Prysurdeb yr hydref

Mae'r tymor newydd wedi dechrau a nifer fawr ohonoch wedi manteisio ar y cyfle i gofrestru ar gyfer ein sesiynau ioga, pilates, Sbaeneg a Tai Chi ymhlith pethau eraill. Mae'r Gerddorfa Ukulele wrthi'n ymarfer ar gyfer digwyddiadau amrywiol ac erbyn i chi ddarllen y golofn hon byddan nhw wedi diddanu rhedwyr a thorf Hanner Marathon Caerdydd ar 1 Hydref.

Mae mis Hydref yn fis prysur i'r ddwy Fenter gyda chyrsiau newydd, gigs a gweithgareddau hanner tymor yn llenwi'r amserlen. Felly, beth sydd ar y gweill dros yr wythnosau nesaf?

**Cyrsiau newydd:**

**Ar drywydd y tywysogion: o Lywelyn Fawr i Owain Glyndŵr** - Dydy hi ddim yn rhy hwyr i gofrestru ar gyfer ein cwrs newydd ar Zoom sy'n rhedeg am 3 wythnos o nos Lun, 2 Hydref (19:30-20:30). Cofiwch fod recordiau ar gael os byddwch yn colli sesiwn. (£10)

**Gwnïo a Thecstilau** - Mae cwrs newydd 10 wythnos o hyd yn dechrau nos Lun, 2 Hydref yn yr Atrium, Prifysgol De Cymru. Darperir offer a defnyddiau. (£80)

**Taclo Technoleg** - Nabod rhywun sydd angen ychydig o gymorth ar eu gliniadur neu dabled? Cofiwch am ein cwrs newydd ar gyfer pobl sydd wedi ymddeol yn Hyb Rhiwbeina. (Dechrau dydd Mercher, 4 Hydref, 12:00-13:00 am 3 wythnos - £10)

**Cynganeddu** – Bydd y dosbarth profiadol yn cwrdd yn Chapter bob yn ail wythnos o nos Fawrth, 10 Hydref yng nghwmni Aron Pritchard. Y Prifardd Gruffudd Owen fydd yn arwain y dosbarth i ddechreuwyr fydd hefyd yn cwrdd bob yn ail wythnos. Bydd y dechreuwyr yn cwrdd yn Chapter gyda chyfle hefyd i ymuno ar Zoom. (£78 am 10 wythnos)

**Gosod Blodau** – Dewch i ddysgu mwy am dyfu, gosod a threfnu blodau'r ardd yn Rhandiroedd Pontcanna yng nghwmni Siwan a James Matthews. (Iau, 5 Hydref, 15:00 - £10)

**Ymweliad: Senedd Cymru** – Taith dywys rad ac am ddim o amgylch adeilad y Senedd ar fore Iau, 19 Hydref. Niferoedd yn gyfyngedig felly cofiwch gofrestru! Bydd taith dywys i orielau Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ym mis Tachwedd a Chwrt Insole ym mis Rhagfyr.

**Sgwrs y Mis –** Dr Haydn E. Edwards fydd yn ymuno â ni nos Lun, 23 Hydref i gyflwyno hanes yr arloeswr a chymwynaswr Griffith Davies FRS. Mae'n debyg mai tri mis yn unig o addysg ffurfiol a dderbyniodd Davies, ond sylweddolwyd fod ganddo allu rhyfeddol mewn mathemateg. Ymunwch â ni ar Zoom i glywed ei stori ryfeddol. (Am ddim)

**Mewn Tiwn** – Y delynores Bethan Semmens o Live Music Now fydd ein gwestai ar ddydd Llun olaf mis Hydref. Gwarchod yr wyrion yn ystod hanner tymor? Dim problem, dewch â nhw i'r gyngerdd! (Canolfan Beulah, Llun 30 Hydref 11:30-12:30 – am ddim)

**GIGS –** Bydd **Gareth Bonello: The Gentle Good** yn perfformio yn y Memo, y Barri nos Sadwrn, 14 Hydref fel rhan o daith Mentrau Iaith Cymru/Pyst. Mae tocynnau ar gael o wefan y Memo am £10/£8. Bydd Parisa Fouladi hefyd yn perfformio ar y noson. Cofiwch hefyd am gig Pedair (tafarn y Duke of Wellington, y Bont-faen ar 1 Rhagfyr) a Mynediad am Ddim yn y Memo ar 27 Ionawr.

**Clwb Ieuenctid CFTi** – Oes gennych chi blant neu wyrion ym mlynyddoedd 7-10? Mae'r Clwb Ieuenctid yn rhedeg bob nos Fercher hyd hanner tymor rhwng 16:30 a 18:30 yn Ystafell Lles Coleg Caerdydd a'r Fro ar Ffordd Dumballs. Cyfle i sgwrsio ac ymlacio yn y Gymraeg. Am fwy o wybodaeth:
gruff@mentercaerdydd.cymru

**Gweithgareddau Gwyliau** – Cofiwch hefyd am ein sesiynau chwarae agored rhad ac am ddim, Bwrlwm, a'r cynllun Gofal fydd yn dychwelyd yn hanner tymor ar gyfer plant o'r dosbarth derbyn hyd flwyddyn 6.

Bydd ein sesiynau **Amser Stori** a **Deffro'r Synhwyrau** hefyd yn parhau drwy gydol tymor yr hydref mewn lleoliadau amrywiol. Yn ôl yr arfer, ni chynhelir sesiynau yn ystod gwyliau hanner tymor.

Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
https://www.instagram.com/mentercaerdydd/ https://www.instagram.com/menterbromorgannwg/
E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888

# Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2024

Pleser yw cyhoeddi y bydd Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd yn cael ei chynnal nos Wener 26 Ionawr 2024, yn Ysgol Glantaf. Bydd mwy o fanylion ynghylch y noson ar gael ar ein cyfrifon cymdeithasol, ac ar y wefan yn ystod y misoedd nesaf.

Gallwn hefyd gyhoeddi fod y testunau gwaith cartref bellach ar gael ar ein gwefan (www.eisteddfodcaerdydd.cymru). Mae dewis eang o gystadlaethau yno, rhai'n newydd, heb anghofio'r hen ffefrynnau. Ewch i gymryd cipolwg. Ein beirniaid gwaith cartref eleni yw Llŷr Gwyn Lewis, Meg Ellis, Geraint Cynan ac Aled Jenkins. Maen nhw'n aros yn eiddgar am eich ceisiadau! Bydd gyda ni borthol cystadlu gwaith cartref eleni am y cyntaf, fydd ar gael ar y wefan.

Bydd y testunau llwyfan ar gael yn yr wythnosau nesaf hefyd, felly ewch ati i ddod â'r côr at ei gilydd ac i ymarfer eich stepio, a welwn ni chi yng Nglantaf!

# GIGS Y FRO!

## HYDREF 2023



### THE GENTLE GOOD / PARISA FOULADI



**NOS SADWRN 14 HYDREF 2023**

8PM | TOCYNNAU: £10|£8

Y Memo, Y Barri

## RHAGFYR 2023



### PEDAIR

**NOS WENER 1 RHAGFYR 2023**

8PM | TOCYNNAU: £15

Tafarn Duke of Wellington, Y Bontfaen

## IONAWR 2024



### MYNEDIAD AM DDIM

**NOS SADWRN 27 IONAWR 2024**

7:30PM | TOCYNNAU: £15|£12

Y Memo, Y Barri

**www.menterbromorgannwg.cymru**

MENTER IAITH BRO MORGANNWG

MENTRAU IAITH